

y tincer

PRIS 75c | Rhif 361 | MEDI 2013

Medal i Emyr

t12




Wyn yn Modelu

t7



Colofn newydd – enwau

t11



Priodas

Bedydd



Llongyfarchiadau i Siân Hughes Trawsnant ar ei phriodas â Ifan Wyn, Wern, Talwrn, Ynys Môn. Cynhaliwyd y briodas yng nghapel Siloa Cwmerfyn ar y 27ain o Orffennaf.



Dydd Sadwrn Awst 31ain bedyddiwyd Maddison Leigh Jones, merch Carwyn a Lindsey Jones, Maes Awelon, Pen-y-garn yng Nghapel y Garn gan y Gweinidog y Parchg Wyn Rh. Morris. Chwaer i Jordan a Benjamin.

Enillwyr lleol



Mrs. Elspeth Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont, gwraig y Llywydd am eleni, David Jones, yn cyflwyno cwpan i Seren Jenkins am wobrn yn y gystadleuaeth newydd o hen. Gwnaeth Seren y gadair y gwelwyd ei llun yn Nhincer Mehefin.



Elis Lewis, Carreg Wen, Bow Street, gyda'r cwpan am Bencampwr Bechgyn Cymru dan 15. Mae Elis ar hyn o bryd yn Bencampwr Bechgyn Cymru, Pencampwr Urdd Teilyngdod Dyfed a Phencampwr Ceredigion.
Chwaraeodd i Gymru dydd Sul pa enillwyd yn erbyn Surrey.

y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X

GOLYGYDD – Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

TEIPYDD – Iona Bailey

CYSODYDD – Elgan Griffiths ☎ 832980

CADEIRYDD – Elin Hefin
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION
Y TINCER – Bethan Bebb
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

TRYSORYDD – Hedydd Cunningham
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

HYSBYSEBION – Rhodri Morgan
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

LLUNIAU – Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

TASG Y TINCER – Anwen Pierce

TREFNYDD GWERTHANT – Lila Piette
Llys Heddd, Bow Street ☎ 820223

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL
Mrs Beti Daniel
Glyn Rheidol ☎ 880 691

Y BORTH – Elin Hefin
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

BOW STREET
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Olyn ☎ 820 908
Anwen Pierce, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
Maria Owen, Swyddfa'r Post ☎ 828 201

CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN
Mrs Aeronwy Lewis
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

DÔL-Y-BONT
Mrs Llinos Evans - Dôlwerdd ☎ 871 615

DOLAU
Mrs Margaret Rees - Seintwar ☎ 828 309

GOGINAN
Mrs Bethan Bebb
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

LLANDRE
Mrs Mair England
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

PENRHYN-COCH
Mairwen Jones - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

TREFEURIG
Mrs Edwina Davies
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

dyddiadur

Rhifyn Hydref

Deunydd i law: Hydref 4 | Dyddiad cyhoeddi: Hydref 16

MEDI 20 Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

MEDI 21 Bore Sadwrn Bore coffi a stondin gacennau tuag at Bapur Sain Ceredigion yn Festri'r Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth o 10.30-12.00.

MEDI 24 Nos Fawrth Ymholiad Iechyd yn trefnu sesiwn cyhoeddus yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth o 7.00 tan 8.00 ????

MEDI 25 Nos Fercher Cwrdd Diolchgarwch Llwyn-y-groes. Pregethwr gwadd: y Parchg Hywel Jones am 7.00.

MEDI 28 Dydd Sadwrn Diwrnod Maes Sir Ceredigion yn IBERS, Aberystwyth

MEDI 29 Nos Iau, Noson agoriadol Clwb CIC yn Festri'r Garn am 7yh o dan arweiniad Fal Jenkins. Cynhelir Noson Gwis. Croeso cynnes i ddisgyblion Blwyddyn 6 ac i fyny.

MEDI 30 Nos Lun Bara Caws yn cyflwyno 'Cyfail' (Francesca Rhydderch) a 'Te yn y grug' (addasiad Manon Wyn Williams) yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.30.

HYDREF 2 Nos Fercher Gwasanaeth Diolchgarwch Horeb, Penrhyn-coch yng nghwmni Carol Hardy am 7.00

HYDREF 3 Nos Iau Recordio Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn Eglwys Llanbadarn am 7.00

HYDREF 6 Nos Sul Ysgoloriaeth Bryn Terfel yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Tocynnau ar gael o 623232 neu wefan Canolfan y Celfyddydau

HYDREF 9 Nos Wener Noson agoriadol Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r cylch Y Parchg Cecilia Charles 'O Ficerdy i Ficerdy' yn Neuadd Gymunedol y Borth am 7.30

HYDREF 11 Nos Wener Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach

HYDREF 11 Nos Sul Cyngerdd Côr Meibion Aberystwyth yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch am 7.30 Mynediad £5 Tocynnau ar gael o Swyddfa'r Post, y garej ac aelodau'r eglwys.

HYDREF 12 Nos Sadwrn Noson codi arian gwisg ffansi PATRASA yn Neuadd y Penrhyn Pris tocyn: £10 Thema: Teledu a ffilm

HYDREF 16 Nos Fercher Barbara Davies Y Faciwl Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

HYDREF 18 Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

HYDREF 19 Nos Sadwrn John ac Alun yn lansio eu llyfr newydd yn y Gorllewin am 8.00 yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth yng nghwmni Bois y Fro. Tocynnau yn £10 ar gael o Westy Llety Parc neu oddi wrth Megan ar 01970 612768. Holl elw'r noson tuag at yr elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Cofiwch ddod i gefnogi!

HYDREF 24 Nos Iau Noson goffi a raffl fawr Neuadd Rhydpennau

HYDREF 25 Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis, llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhaiin Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

Cyhoeddi y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mehefin

£25 (Rhif 202) Anne Davies, Coed Rhiwfelen, Goginan

£15 (Rhif 63) T.Jones, TirNaNog, Caerdydd

£10 (Rhif 143) Maldwyn Williams, 38 Aberwennol, Y Borth

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mehefin 19.

Diolch i Anne Davies, Coed Rhiwfelen sydd wedi rhoi ei £25 yn rhodd i'r Tincer

Annwyl Olygydd,

Bydd cynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn cael ei chynnal eleni ym Mhrifysgol Bangor ar y 5ed o Hydref. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau ar Adnoddau Archifyddol Bangor, Archif Enwau Lleoedd Melville Richards, Enwau Arfordirol Môn, Enwau Caeau ac Archaeoleg Dyffryn Ogwen, Tystiolaeth Enwau Caeau yng Ngogledd Orllewin Cymru a Mapio'r Teifi: Campwaith Idris Mathias.

Gellir cael y manylion llawn a ffurflen gofrestru ar ein gwefan:

[http://www.](http://www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org/)

[cymdeithasenwaulleoeddcymru.org/](http://www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org/)

neu trwy gysylltu ag angharad.fychan@googlemail.com

Mae'r tâl cofrestru yn £25 (£20 i aelodau) sy'n cynnwys paned a chinio, ond rhaid cofrestru erbyn 20fed o Fedi.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Fangor!

Yn gywir,

Angharad Fychan, Ysgrifennydd, CELIC

Darlledu cyfres

Bydd y gyfres deledu a ffilmiwyd yn yr ardal - Y Gwyll - i'w gweld ar S4C nosweithiau 29 a 31 Hydref am 9:30pm.

Aeth nifer o gantorion o'r ardal i recordiad o Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn Llangetho. Bydd y rhaglen hon yn cael ei dangos nos Sul 24 Tachwedd ac ail un ddechrau 2014.

Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer - mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthgy i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.



Anna Sadler, Brenhines Carnifal Penrhyn-coch gyda o'r chwith Gwion Lewis, Elin Jenkins, Sian Wyn Davies, Nicola Richards, Karen Hughes a Philip Richards. Llun: Hugh Jones (O'r Tincer Medi 1983)

20 MLYNEDD YN ÔL



Pwy feddyliai fod yna 50 mlynedd ers y carnifal cyntaf ym Mhenrhyn-coch - yng Ngorffennaf 1963

Carnifal 1963 Moira Evans (brenhines); Marion James, Bethan Thomas, Auriel Morgan, Eirlys Lewis, Avril Davies ac Eleri Morgan.



A dyma lun o'r un olaf - Gorffennaf 1993 - 20 mlynedd yn ôl. Joanna Lewis (brenhines), Holly Richards ac Anna Richards.

Rhodd

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor. Cylch Cinio Aberystwyth £100

LLANDRE

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Alison a Kathryn a’u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, Margaret Thomas, Sŵn y Nant, Lôn Glanfred ym Mhlas Cwmcynfelin mis Gorffennaf;

â theulu Audrey Kay, Maeshenllan, a fu farw yn Wakefield yn ddiweddar;

â Dafydd a Jane Raw Rees a’r teulu ar farwolaeth modryb, sef Mair Raw Rees, Waunfawr

Hefyd â Rhian Benjamin a’r teulu, Taigwynion, ar farwolaeth sydyn brawd yng nghyfraith yn y Drenewydd.



Y beirdd a fu’n cystadlu yn y Talwrn yn y Parc yn Llandre ar nos Wener 6 Medi. Mae Ceri Wyn, Y Meuryn ar y chwith a’r pencampwyr Tîm Llanfihangel Genau’r-glyn ar y dde a Greg Hill a fu’n darllen englyn o waith Huw Ceiriog, Phil Thomas, Huw Meirion Edwards a Geraint Williams

Clwb 50 Banc Bro

Enillwyr mis Gorffennaf

- 1. £30 - Sara Llewelyn, Llys Berw
- 2. £20 - Arwyn Mason, Gors Villa
- 3. £10 - Huw Meirion, Bancyfelin

Enillwyr mis Medi

- 1. £30 – Ann Jones, Llain Wen
- 2. £20 – Owen Watkin, Maeshenllan
- 3. £10 – Bryn Lloyd, Maes Ceiro

Merched y Wawr

Penderfynwyd cyfuno ein trip blynyddol a phrosiect Merched y Wawr i gerdded llwybr arfordir Cymru. Ar noson braf nos Lun 17 Mehefin daeth nifer o aelodau ynghyd i gerdded rhan o’r llwybr ar hyd glan y môr y Borth. Wedi’r daith mwynhawyd gwledd o fwyd ym mwyty Boulders i orffen gweithgareddau’r flwyddyn.

Bydd Merched y Wawr yn ail gychwyn ar ôl



Rhai o aelodau cangen Merched y Wawr yn cerdded darn o lwybr yr arfordir ar hyd glan y môr y Borth

gwyliau’r haf ar Fedi 16eg, am 7.30 o’r gloch yn Ysgoldy Bethlehem. Swyddogion am y flwyddyn fydd - Llywydd Glenys Evans; Ysgrifennydd Mair England a’r Trysorydd Llinos Dafis.

Pen-blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Glyn Williams, Bryngolau, a ddathlodd pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Treftadaeth Llandre

Medi 26 - Seintiau, pererindod a chyfanheddu mewn Gwledydd Celtaidd - Jonathan Wooding
Hydref 31 - Cŵn defaid Cymru - Erwyd Howells

Diolch yn fawr

Dymuna Glyn Williams, Bryngolau, ddiolch i bawb am eu dymuniadau gorau, trwy dderbyn cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig mis Medi.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Ainhwa Dafis sydd – ar ôl treulio blwyddyn yn Asturias yn Sbaen yn mynd i Brifysgol Sheffield i wneud cwrs biocemeg.

Croeso

Croeso cynnes i Iestyn, Catrin, Glain a Miriam Davies sydd wedi symud i mewn i

Junis, Lon Glanfred. Gobeithio byddant yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Nans Morgan ar farwolaeth ei brawd Gwilym yn Aber-arth ddiwedd Mehefin.

Llwyddianau

Parhau mae llwyddianau Dylan Edwards a enillodd Dlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llandudoch.

Yr Awen yn ddisglair yn yr awyr iach

Er i ragolygon y tywydd ddarogan bwcedi o law roedd hi’n noson hyfryd yn Llandre ar nos Wener 6 Medi pan fu pedwar tîm o feirdd yn ymryson yn y Talwrn yn y Parc yng nghanol y pentref. Disgrifiwyd y noson fel yr yr unig dalwrn awyr agored yn y byd ac roedd e’n ddigwyddiad arbennig a chofiadwy iawn. Roedd yr achlysur yn ddathliad teilwng iawn o draddodiad barddol y fro a hynny yng nghwmni nifer o feirdd gorau’r wlad. Llywiwyd y noson gan y Meuryn, Ceri Wyn a bu pedwar tîm yn ymrafael – Y Glêr, Tîm y Dre (Aberystwyth), Tîm Tal-y-bont a’r criw lleol Llanfihangel Genau’r-glyn. Siwan Griffiths fu’n cadw’r marciau a chyhoeddwyd ar y diwedd mai’r tîm lleol oedd yn fuddugol. Cyflwynwyd ffyn i’r buddugwyr a wnaed o goed oddi ar Lwybr Llên Llanfihangel Genau’r-glyn gan Xhai Young. Roedd ail hanner y

noson ym Methlehem yn swm cerddoriaeth werin hyfryd The Grassie Busville Band a threfnwyd raffi a phaned o de a choffi i bawb. Trefnwyd y noson gan Fanc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn a chyhoeddwyd y bydd y Noson Nadoligaidd eleni ar ffurf Cracyr o Noson ym Methlehem ar nos Wener 29 Tachwedd.

Dyma dasgau Genau'r Glyn, y tîm buddugol yn y Talwrn yn y Parc, Llandre.

Cywydd yn gofyn am faddeuant

Gareth Bale yn gofyn maddeuant cefnogwyr Spurs wedi i'r clwb ei werthu i Real Madrid am €100,000,000

Ble mae'r anrhydedd, meddech,
Ydi'r aur na'r dorf yn drech?
Rhois barch chwe thymor i'r Spurs,
Ac ennyn braw'n y Gunners
Eu hunain, cofiwch hynny.
Gwenai Duw mewn gwyn a du
Pan welai bêl yn nelu'n
Egsoet drwy goesau syn,
A'r galon wedi'r goliau
Yn llun hardd o'n llawenhau.

Ni fydd y galon honno
Yn wag, ble bynnag y bo,
O ddeuliw eich addoli
Na chwaith o'm dyled i chi.
Er eich siom, a drowch chi'ch siant
Yn ddiolch, yn faddeuant?

(Huw Meirion Edwards)

Englyn: Tywysog

Mae un ar lannau Menai – a welir
Fel eilun mewn lifrai.
Dan ei glog mae'i draed yn glai.
Glyn Dŵr, ei galon dorrai.

(Huw Ceiriog, darllenwyd ar ei ran gan Greg Hill)

Limrig: Nid ydwyf yn hoff o fis Medi

Fi really dim hoffi mis Medi,
Holl gwyliau fi gyd wedi bennu.
Mae ysgol mor borin'
Mae pawb dweud fi twpsyn
A sinachs yw'r plentyns fi'n dysgu.

(Sori i Mr Meuryn am newid llinell fe)
(Geraint Williams)

Pennill ysgafn: Symud tŷ
Peth anodd yw bywyd malwoden,
Cario nhŷ ar wastad fy nghefen.
Mae'n werth yr hambyg
'rol gweld Dai y slyg
Yn gwerthu *Big Issue* i chwilen.

(Phil Thomas)

GOGINAN

Llwyddiant

Mae tafarn y Druid wedi ennill gwobr CAMRA (Cymdeithas Gwir Gwrw) am y dafarn orau yng Ngorllewin Cymru am y tro cyntaf.

Ar ôl ennill y gystadleuaeth dros Geredigion ym mis Ebrill aeth y dafarn ymlaen i orchfygu enillwyr o Siroedd Penfro a Chaerfyrddin. Nawr bydd y Druid yng nghystadleuaeth Cymru gyfan gyda'r posibilrwydd o fynd ymlaen i gystadleuaeth ledled Prydain.

Mae'r tafarn dai yn cael eu beirniadu ar awyrgylch y dafarn, y croeso, y gwasanaeth a chanolbwynt y dafarn yn y gymuned yn ogystal a safon a dewis o gwrw casgen.

Cafodd y beirnaid argraff arbennig o fywiogrwydd y dafarn fel canolbwynt y pentref yn ogystal a safon y cwrw a bydd Lewis Johnston, y tafarnwr, yn gobeithio rhoi'r dafarn ar fap tafarnau Cymru os nad Prydain.

Dywedodd Rhys Jones, cadeirydd CAMRA Ceredigion: "Dyma'r ail waith i dafarn leol



Siop

SGIDIAU GWDIHW

8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL

01970 617092



Gwasanaeth

GOFAL TRAE

Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r

H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

ennill y wobr dros y Gorllewin. Mae'n bluen yn het y Druid i gynrychioli'r ardal ac i sefyll i fyny dros dafarnau cefn gwlad ar amser pan fod cymaint ar fin cau.

Dathlu

Bu dathlu mawr ym Mrynmeillion ar y seithfed ar hugain o Orffennaf pan oedd Maldwyn a Eirlys Davies, yn dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchadau iddynt ar gyrraedd y garreg filltir yma ac edrychwn ymlaen yn awr at yr un ddiemwnt.



Pysgotwr ifanc

Gorffenodd Sean Bevan yn sedd allan o 32 o blant mewn cystadleuaeth pysgota a gynhaliwyd ddiwedd Mehefin ar Llyn Dinas.

Cofiwch gysylltu â ni ytincer@googlemail.com

PENRHYN-COCH

Oedfaon Horeb
Gweler hefyd <http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php>
Medi
22 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog
29 10.30 Oedfa bregeth Lyn Lewis Dafis

Hydref
2 7.00 Oedfa ddiolchgarwch
6 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
27 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Medi, 9 a 23 Hydref. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwyddno a Lisa Dafydd, Caerdydd ar enedigaeth mab – Trystan Llywelyn ar 24 Gorffennaf. Wyr i Rhiannon a Dafydd Ifans, Rhandir. i Sioned a Rob Mills, Llwynderw, ar enedigaeth mab - Rhys Bryn - ar 23 Gorffennaf; brawd bach i Osian Tudur. ac i Karen a Matthew Roberts, Rhydyfelin, ar enedigaeth merch fach – Caitlin ar 18 Gorffennaf ; chwaer fach i Owen Jac a wyres i Sue a Mervyn Hughes, Ger-y-llan.

Graddio

Roedd Daniel a Helga Huws, Tyddyn Seilo, yn falch iawn o glywed am lwyddiant Aaron Cheung – mab Hanna a Paul. Cafodd Aaron – fagwyd yn Llanfairpwll, radd dosbarth 1af PPE RHYDY neu Cgt

Croeso

Croeso cynnes i Greg a Gemma i Dolhelyg.

Bysiau

Yn ystod yr haf cyflwynwyd dau fys hwyrol ychwanegol gan gwmni Mid Wales Motors. Mae bys rhif 512 yn gadael Penrhyn-coch am Aberystwyth am 19.12 a bys rhif 526 yn gadael Aberystwyth am Benrhyn-coch am 23.55

Codi arian er cof am James Evans, Penrhyn-coch

Bu farw James Evans, mab Ceredig a Margaret Evans, Penrhyn-coch mis Ionawr 2011. Ers hynny mae Lindsay wedi codi dros £2,000 ar gyfer yr elusen Sarcoma UK. Mae'r daith yma, dros 40,000 milltir, yn cychwyn ar 1 Medi, ac yn para 11 mis. Os hoffech gyfrannu at Sarcoma UK er cof am James Evans, gweler <http://www.justgiving.com/Lindsay-Evans1>

Dewis i ganu

Llongyfarchiadau i Sion Wyn Hurford, Dôl Helyg, - cyn aelod o Only Kids Aloud - ar gael ei ddewis i fod yn aelod o Only Boys Aloud. Dymuniadau gorau iddo wrth ddechrau yn ystod mis Medi.

Urdd y Gwragedd

Nos Lun Medi zil dechrewyd tymor newydd Urdd y Gwragedd gyda dathliad



Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Einion Dafydd, Rhandir, am ennill Gwobr Rhagoriaeth Dysgu Prifysgol Aberystwyth. Mae Einion wrthi'n cwblhau doethuriaeth yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac fe dderbyniodd y wobwr am ddysgu cwrs ar yr Undeb Ewropeaidd. Bydd yn dechrau swydd fel Cymrawd Dysgu yn yr Hydref.

o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys dan ofal y Parchg R. Williams, yna cafwyd swper yn Neuadd yr Eglwys i drafod rhaglen y tymor newydd. Yn ystod Gorffennaf cynhaliwyd Te hufen a mefus yn Neuadd yr Eglwys. y gŵr a'r wraig wadd oedd Mr a Mrs Glyn Rowlands (Frondeg gynt) cafwyd prynhawn hapus iawn pan ddaeth cynrychiolaeth o Gôr buddugol yr ysgol gynradd yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen i ganu dan arweiniad Mr Greg Roberts, mwynhawyd y canu yn fawr iawn gan y gynilleidfa. Yn ystod y prynhawn lansiwyd cwis yn gysylltiedig â hysbysebion ar y teledu, cafwyd ymateb da. Dewisiwyd yr atebion cywir a ddychwelwyd nos Lun Medi zil a'r enillydd oedd Mr Ronald Southey o Wolverhampton. Diolch i bawb a gymerodd ran.

Ioga Tyner ym Mhenrhyncoch

Mae grŵp bach wedi bod yn cyfarfod yn 11, Nant Seilo rhwng 2.30-4.00 bob p'nawn dydd Iau ers blwyddyn a hanner i ymarfer ioga tyner. Mae Cathy Crick, athrawes ioga o Gellan, ger Llambod, yn brofiadol mewn dysgu dulliau tyner o ymarfer ioga ac mae pwyslais y dosbarth ar wella iechyd. Dechreuodd y grŵp ar gyfer pobl gydag ME ond erbyn hyn mae'n agored i unrhyw rai sydd yn gymhedrol eu hiechyd ac sy'n teimlo eu bod angen dysgu sut i ymlacio ac ymarfer mewn ffordd sy'n garedig i'r corff. Yn ôl Mair Jones sydd yn mynychu'r dosbarth "mae'r ymarferion ymlacio wedi bod o les mawr imi ac rydw i'n cysgu'n well ac mae gen i fwy o egni nawr". Mae croeso i aelodau newydd i ymuno â'r grŵp, cysylltwch â Derryan Paul ar 828896 neu cathycrick@hotmail.co.uk neu 07748031614 am fwy o fanylion. Mae'r telerau talu yn amrywio o £5 i £7.50 yn ôl gallu yr unigolyn i dalu.

Merched y Wawr

Cyhoeddwyd Pwyllgor Merched y Wawr Penrhyn-coch am 2013/14. Mae'r gangen yn cwrdd ar yr ail nos Iau o'r mis (Medi i Fehefin) am 7.30 y.h. Pwyllgor 2013/14 Llywydd: Sue Hughes
Ysgrifennydd: Sharon Jones
Cofnodion: Mair Jenkins
Trysorydd: Sandra Beechey
Is-Lywydd: Wendy Reynolds
Is-Ysgrifennydd: Janice Morris

Cofnodion: Delyth Ralphs
Is-Trysorydd Delyth Jones
Aelodau'r Pwyllgor: Megan Davies, Mair Evans, Elsie Morgan, Eirwen Hughes.
Gohebydd Y Wasg: Mairwen Jones
Dosbarthu Y Wawr: Miriam Garratt
Tynnwr Llundain: Alwen Fanning

Cyfarchion Pen blwydd

Pen blwydd hapus i Hugh Jones, Panteg, a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar y 7fed o Hydref, oddi wrth Alan, Janet, Cyril, Mathew a Mattie.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Karen a Mathew ar enedigaeth Caitlin Rees, chwaer i Owen Jac a wyres i Mervyn a Sue.

Hyfryd oedd gweld Lynne adref dros y gwyliau i weld ei nith fach a'r teulu cyn hedfan yn ôl i Kuwait.

Pen blwyddi arbennig

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Sandra Beechey, Y Felin ar achlysur ei phen blwydd ar y 13eg o Fedi. Pen blwydd arbennig.

Dymuniadau gorau a phen blwydd hapus iawn hefyd i Hugh Jones, Panteg ar achlysur ei ben blwydd yn 90 oed ar y 7fed o Hydref.

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu a chysylltiadau y diweddar Tom Davies, Llan-non;

â theulu y diweddar David Charles Davies (Dai Charles), Rhydyfelin;

hefyd gydag Arwyn Richards, Ceirios, ar golli ei chwaer, Mair Taylor – un o blant y pentre;

ac â theulu y ddiweddar Sarah Bennett, Crewe. Wyres y diweddar Cyril Rees, Bow Street gynt.

Cyrsiau Coleg

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiannau yn eu harholiadau lefel A

a dymuniadau gorau ar eu cyrsiau coleg
- Erwan Izri - Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer yng Nghaerfaddon; Joe Scannell
- Dawns yn Bird College, Llundain ac Andreas Adams sydd yn cymryd blwyddyn gap cyn mynd i Brifysgol Loughborough i astudio gwyddoniaeth chwaraeon.

Gwellhad buan

Da yw deall fod Margaret Evans, Glanaber, yn dal i wella ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty yn ystod yr haf.

Gwellhad buan hefyd i Christine Evans, Maesgwyn, Garth, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty yn disgwyl triniaeth.

Graddio

Roedd Daniel a Helga Huws, Tyddyn |Seilo, yn falch iawn o glywed am lwyddiant Aaron Cheung – mab Hanna a Paul. Cafodd Aaron – fagwyd yn Llanfairpwll, Ynys Môn, radd dosbarth 1af cwrw PPE (Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg) Prifysgol Rhydychen.

Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch

Bingo ar 20fed Medi, 18fed Hydref a 15fed Tachwedd am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Codi nawdd

Llongyfarchiadau i Bev Thomas, Garn Wen, ar godi £5,556 mewn nawdd ar gyfer cangen Aberystwyth a'r cylch o Sefydliad Prydeinig y Galon yn rhedeg ym Marathon Llundain.

Cyfarfod blynyddol

Yng nghyfarfod blynyddol y Tincer nos Fawrth 10fed o Fedi ailetholwyd y swyddogion am y flwyddyn 2013/4 ar wahan i'r Trefnydd Busnes. Dymuniad Bryn Roberts oedd cael ei ryddhau o'i swydd . Diolch iddo am ei waith yn rhoi trefn hynod effeithiol i'r dosbarthu. Y Trefnydd Busnes newydd yw Lila Piette, Bow Street. Dymuniadau gorau iddi wrth ei gwaith. Sylwer fod ysgrifennydd y Tincer wedi newid cyfeiriad.



Bu Wyn Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont, sy'n chwarae fel asgellwr ac ymosodwr i Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn siarad ar y radio ddechrau Medi yn sôn am y cyfle gafodd i fodlu yn Llundain. Mae Wyn yn gweithio mewn archfarchnad yn Aberystwyth. Mae newydd ddychwelyd o Lundain lle bu yn cerdded i'r cynllunwyr GCC (Gentleman's Club Clothing). Dymuniadau gorau iddo.



Llun: Hugh Jones

Janice Cowley, Llywydd Sioe Penrhyn-coch eleni gyda'i merch Roxanne.

Diolchgarwch Eglwys Sant Ioan

Cynhelir gwasanaethau diolchgarwch Eglwys Sant Ioan dydd Mercher 25 Medi – cymun bendigaid yn y bore am 10.00 a gwasanaeth nos am 7.00 pan bregethir gan y Parchg John Matthews, Llandygái. Bydd gwasanaeth diolchgarwch y plant fore Sul 29 Medi am 10.45



Y Parchg Ganon Ronald Williams, Maes-y-garn, yn dathlu 50 mlynedd yn yr Eglwys gyda rhai o blant, Clwb y Sul a ganodd ‘Gyda Iesu Grist’, yn y gwasanaeth Cymun Bendigaid fore Sul, 7 Gorffennaf. Cafwyd cinio wedyn i ddathlu’r achlysur yn Neuadd yr Eglwys. Mae’r Parchg Williams yn frodor o Borthmadog a threuliodd y rhan fwyaf o’i yrfa yn Esgobaeth Llanelwy - yn gurad ym Mhenarlâg cyn mynd yn ficer i Lan Conwy, Rhosllannerchrugog (lle bu am 12 mlynedd), Nannerch, Cilcain a Rhydymwyn (ardal yr Wyddgrug). Symudodd i Esgobaeth Tyddewi ac Eglwys Llanbadarn Fawr lle bu hyd ymddeol.

Creu logo

Mae myfyrwraig o Benrhyn-coch, coleg yn Sir Gaerfyrddin a busnes ym Mhowys wedi gweithio gyda’i gilydd er mwyn creu delwedd newydd ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Cyflwynodd Lowri Morgan, Tir-y-dail, myfyrwraig israddedig yng Ngholeg Sir Gâr, gysyniad logo i’r Comisiynydd Christopher Salmon. Yna, gweithiodd gyda Motif Creative, cwmni cynllunio proffesiynol, i gyflwyno logo a chanllawiau brand newydd. Nod yr edrychiad newydd yw adlewyrchu rôl y Comisiynydd fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd ar draws y rhanbarth. Dros y misoedd nesaf, fe ddaw’r edrychiad newydd, sy’n disodli brandio dros dro a ddatblygwyd cyn i Mr Salmon gael ei ethol ym mis Tachwedd, yn bresenoldeb cyfarwydd mewn



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

Diolch

Hoffai Gwen Morgan ddiolch o gallon i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd. Diolch o galon i bawb.

Pen blwydd

Bu yna dipyn o ddathlu yn y Cwm dros yr haf. Ddechrau Gorffennaf dathlodd Mair Stanleigh, Dolfawr, ei phen blwydd yn gant oed. Trefnwyd parti mawr yn Llety Parc a daeth dros gant o gyn-ddisgyblion, cyn gyd-weithwyr, cymdogion a ffrindiau ynghyd i ddymuno yn dda iddi. Cafwyd prynhawn pleserus iawn a bu llawer o hel atgofion am ei dyddiau yn athrawes yn y Coleg Addysg Bellach. Gwerthfawrogodd Mrs. Stanleigh y cyfan yn fawr. Yn nes ymlaen yn y mis cafwyd dathliad arall, y tro ma yng Nghanolfan Statkraft yng Ngwmrheidol. Paratowyd y bwyd gan aelodau Urdd y Benywod a Staff Statkraft. Daeth nifer fawr ynghyd a chafwyd noson hapus a theilwng iawn i un sydd wedi bod mor amlwg a gweithgar ym mywyd y gymuned. Pen blwydd hapus iawn a hyfryd yw eich gweld yn edrych tipyn yn well ac yn dechrau mynd o amgylch unwaith eto. Un arall a gafodd ben blwydd arbennig oedd Gwen Morgan, Y Byngalo. Cafwyd

parti bach i ddathlu yn Rheidol View gan fod Dave a Sue am ddiolch i Gwen a Aneurin am fod yn gymdogion mor groesawgar, ac yna ar ddydd ei phen blwydd ymunodd y teulu i gyd i fwynhau eu hunain yn y Gwesty yn Aberdyfi. Pen blwydd hapus Gwen a gobeithio y cawn lawer dathliad eto yn eich cwmni.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Ellie a Aysha Doidge, Cae Gynon, ar eu llwyddiant. Enillodd y ddwy raddau anrhydeddus, Ellie o Brifysgol Loughborough ac Ayesha o Brifysgol Caerwysg. Mae y ddwy ar hyn o bryd yn Llundain lle mae Ellie yn gobeithio cael swydd ym myd Addysg ac Ayshea yn gweithio yn wirfoddol ym myd Amgueddfeydd, gan obeithio cael swydd yn y maes yn y dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i Claire Maloney, Maes y Glyn, ar ennill gradd anrhydeddus o Brifysgol Caerwysg. Mae hi yn awr yn mynd ymlaen i astudio ymhellach yn y Brifysgol. Pob hwyl i’r dair yn y dyfodol.

Sioeau

Bu yr haf yma yn un i’w gofio i Dafydd a Sian Morris, Neuadd Parc. Yn Sioe Caer enillodd Friars Heart of Gold a Neuadd

ymddangosiadau cyhoeddus, ar ei wefan a deunydd sydd wedi’i argraffu. Dywedodd Lowri, sy’n astudio ar gyfer gradd BA mewn Cyfathrebu Graffig yng Ngholeg Sir Gâr ac sydd ar fin cychwyn ar ei thrydedd flwyddyn yno, “Rwyf wedi dysgu llawer yn ystod y broses hon. Bydd y profiad o fantais fawr i mi wrth i mi chwilio am swydd ar ôl graddio. Roedd briff y Comisiynydd yn heriol oherwydd mae ganddo rôl mor ddylanwadol dros ardal eang. Roedd y tîm yn Motif Creative yn ysbrydoledig, yn brofiadol ac yn hynod ymroddedig.”

Parc Welsh Anthem Bencampwriaethau yn eu hadrannau gan ddod yn erbyn ei gilydd yn y brif ddosbarth i ddewis y ceffyl gorau i fynd i Sioe Ceffyl y Flwyddyn ym Mirmingham ym mis Hydref. Y tro yma caseg Heart of Gold a orfu a mawr yw yr edrych ymlaen am y gystadleuaeth fawr ym mis Hydref. Cafwyd llwyddiant eto yn Sioe Frenhinol Cymru gan i Heart of Gold ennill y ceffyl gorau yn yr Adran A gydag Welsh Anthem hefyd yn gyntaf yn ei dosbarth hithau yn Adran C. Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau. Llongyfarchiadau hefyd i Deulu Troedrhicwceir ar eu llwyddiant hwythau gyda’r Ceffylau Gwedd yn y sioeau pell ac agos yn ystod yr haf.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Norma Stephens, Blaenddol, sydd ddim wedi bod yn rhy dda drwy’r haf ac yn wynebu llawdriniaeth yn y dyfodol agos.

Capel Llwyn-y-groes

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch nos Fercher Medi 25ain am 7.00y.h. pryd y pregethir gan y Parchg Hywel Jones, cyn-reithor Llanbadarn . Croeso cynnes i bawb.

DOLAU

Priodas

Dymunwn yn dda i Seren Morgan Jones (merch Annie Suganami Jones a Peter Jones) a briododd â John Lubikowski yn y Llyfrgell Genedlaethol dydd Sadwrn 15fed Mehefin.

Siarad o Brofiad

Yr Arglwydd Elystan-Morgan fydd yn cael ei holi gan Gwion Lewis yn rhaglen olaf y gyfres ‘Siarad o Brofiad’ nos Iau 17 Hydref am 9:30pm

Arholiadau

Llongyfarchiadau i Lisa Wyn, Pant-yr-Haul ar ei harholiadau lefel A, a phob lwc iddi yn ei chwrs ‘Harddwch’ yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhiannon a Huw Williams (Sŵn yr Awel gynt), Caerdydd ar enedigaeth Melangell Elfair Williams a anwyd ar 11 Medi.

R.J.Edwards

Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr
gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru
calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr
i’w llogi
Cyflenwi cerig mán

01970 820149
07980 687475

eich gwefon leol
www.trefeurig.org
your local website

newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

ytincer@googlemail.com

Yn ystod mis Mawrth 1981 dechreuais gael poen cefn difrifol ac fe euthum at fy meddyg a ddywedodd bod sciatica arnaf. Aeth y misoedd heibio heb unrhyw wellhad ac fe’m hanfonwyd i Gobowen. Sciatica oedd barn y meddyg yno, hefyd, er ei fod o yn fodlon ychwanegu yr ansoddair ‘severe’. Ond erbyn tua canol Medi, pan welodd fy nhad na fedrwn gerdded a bod codi a gwisgo amdanaf yn broses ddwyawr o hyd, fe ffoniodd Gobowen i ddweud nad oedd yn hapus a’i fod yn mynd a fi yno. Diwedd y stori oedd darganfod fod gennyf slipped disc ac y gallasai y cyflwr a’i achosodd a’r ffaith mod i wedi cerdded cyhyd ag ef olygu na cherddwn byth mwy. Diolch i’r drefn, ar ôl dros ddeng wythnos o driniaeth yn Gobowen, fe gerddais ond gyda gwendid parhaol a chyda ambell i gyfnod o boen a methiant difrifol. Cadw i fynd yw’r unig ateb ac roedd cerdded Buster yn gymorth mawr i hynny.

Yn ddiweddar, dechreuodd y cefn beri trafferth yn fy mhennaugliniau a’m fferrau ac yn fy nwylo a gwn, o brofiad, fod hwn yn argoeli gwaeth na’r bydwynio cyson a dyddiol yng ngwaelod y cefn. A gwir y gair, ddiwedd yr wythnos ddiwethaf, fe euthum i spasm a chloi. Gallwn gerdded gyda ffon a chamau bach ond dyna’r cwbl. Nid oedd dim amdani ond cyfnod ar yr Ibuprofen a gorffwys gan obeithio nad oedd y disciau wedi llithro yn llwyr o’u lle. Diolch i’r drefn, y maent wedi aros yn eu lle priodol ac yr wyf finnau wedi datgloi ac, os byddaf yn well yfory, yn meddwl mynd yn ôl i’m gwaith. Ond y mae dau beth sydd yn niwsans am y bowt arbennig yma.Un yw ei fod yn dilyn f’ufudd- dod i diktats meddygol i golli pwysau - tair ston ers mis Chwefror - a chymryd mwy o ymarfer a’r llall yw nad oes yma neb bellach i rannu gwaith tŷ.Yr wyf wedi gorfod gadael pethau lle y disgynnasant am na fedraf blygu i’w codi, nid wyf wedi na thynnu llwch nac ysgubo’r llawr ers dyddiau.... a golyga hynny y bydd yn rhaid i mi weithio yn galed iawn pan fedraf. A gall olygu peth arall, hefyd, ymwelwyr, oherwydd un rheol euraid sydd yn fy mywyd i, hyd y gwelaf, yw hon. Os bydd y tŷ ar gychwyn neu fel tŷ Jeroboam fab Nebat, fe ddaw rhywun i’m gweld ! Yr wyf, wrth gwrs, yn croesawu ymwelwyr ond mae’n anodd mwynhau eu cwmni pan ydech chi yn ofni eu bod yn gwaredu at lwch a blerwch a gweoedd pry cop.

Y mae fy nghyfrifiadur, yntau, yn dioddef llesgedd ac arafwch ond ni allaf roi Ibuprofen i hwnnw. ‘Dyro scan McAfee iddo fo’, meddai Gwynn fy mrawd cyn mynd am ei wyliau yn Menton a dyna wneuthum.Yn ôl honno - neu hwnnw? - nid oes dim o’i le ond

Colofn
Mrs Jones

erys y negeseuon...pages unresponsive, low disc space...McAfee has blocked this page... GRRRR!!!

Y mae un peth, o leiaf, yn y tŷ hwn yn gweithio yn iawn, Hector. Fe fu Tiny farw yn ystod yr haf ac y mae gennyf hiraeth amdani ond y mae Hector yn rêl jarff a benthyg enw Llŷn am hogyn afieithus.Dro yn ôl,fe greais set o reolau dychmygol i Buster ei ailadrodd wrtho ei hun a dyma rai Hector -

Nid wyf i ddod a phrae i’r tŷ o gwbl. Os oes rhaid dod ag ef i mewn, fe ofalaf ei fod wedi marw. Ac ni chuddiaf ef o dan y matiau yn y tŷ bach ond ei adael lle y gall Lona ei weld

Nid wyf i ddal llyffaint a’u gollwng yn yr ystafell fyw fel bod Lona yn gorfod cadw rhwyd glan môr i’w dal.

Nid wyf i fwyta na llyffaint na phryfetach na siani flewog na phryfed genwair.Y mae Lona yn rhoi digon o fwyd i mi.

Nid wyf i fegera yn ddigywilydd os oes cyw iar, crisps neu ham ar y meniwr.Y mae Lona yn fy mwydo.

Nid wyf i yfed dim o gwpan neu wydr o eiddo Lona. Dim ond dŵr ddylai cath ei yfed ac y mae digon yn fy nysgl. Ac yr wyf yn ddigon gwirion heb caffeine.

Nid wyf i achosi ‘crash bang wallop’ yn y nos fel petai tyrfa o ladron yn y tŷ. (Er, chwarae teg iddo, nid yw wedi malu dim o’r eiddof).

Nid wyf i godi o’m cwsg fel ffesant o’i nyth, rocedu rownd y teledu ac allan. Nid yw cythreuliaid y fall yn byw yn y tŷ hwn ac ni ddylwn roi lle i Lona bryderu am iechyd hynny o feddwl sydd gennyf .

Bodiau traed Lona yw’r llygod o dan y cynfasau. Nid wyf i ymosod arnynt pan mae hi yn effro ond y mae ymosod yn giaidd arnynt pan mae hi yn cysgu yn ddwbl verboten.

Yr wyf i hel mwythau a chanu grwndi fel arfer ac fe gaf ymestyn hyn i gynnwys eistedd ar lin a rhannu’r sofffa.

Yr wyf i ddal ati i gerdded gyda Lona at ei char i ffarwelio â hi ac i gerdded at y car i’w chroesawu pan ddychwel i’r tŷ dim ond i mi ofalu aros lle medr hi fy ngweld rhag ofn a allo gwaeth.Nid yw crempog o gath dda i fawr, wedi’r cyfan.

Ar nodyn mwy difrifol, pob lwc i bawb sydd yn cychwyn ysgol neu goleg neu swydd newydd. Peidiwch a’n anghofio ni i gyd.

Y BORTH

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Beti Lewis, Heol Aberwennol, ar farwolaeth ei chwaer ganol fis Mehefin.

Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Carwyn Tywyn ar ennill Gwobr Goffa John Weston-Thomas (ar unawd ar delyn deires neu delyn ddi-bedal) yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, ac i'w fam, Eurgain Rowlands, Hafod Heli, am fod yn fuddugol ar greu pedair gêm iaith i ddysgwyr.

Byddai Carwyn wedi ennill y blog teithio hefyd pe bai wedi cyfyngu ei hun i ofynion geiriol y gystadleuaeth!

Dymuniadau gorau iddo ar ei swydd newydd yn Weithiwr Arbenigol dros Gymru efo'r elusen genedlaethol Home-Start-UK sydd yn gofalu am deuluoedd.

Symud

Yn ystod mis Awst symudwyd y gofeb leolwyd yng Nghapel y Gerlan i Eglwys St Matthew.

Trip blynyddol Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r cylch

Fore Mercher, 19 Mehefin, cynhaliwyd y trip blynyddol. Roedd y bws yn llawn ers tro ac am y de y cychwynodd y daith. Bu'r arhosiad cyntaf ym mhentref bach prydferth Cenarth ac yno y mwynhawyd paned a chawsom gyfle i fynd i'r Amgueddfa Goryglau i weld a chlywed am y grefft o wneud corwgl. Symud ymlaen wedyn a chyrraedd dinas hardd Tyddewi – cafwyd cyfle i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol a chrwydro'r dre a chael hufen ia cyn cychwyn y daith yn ôl drwy bentrefi Solfach, Niwglwl yb a chyrraedd Gwesty Ffostrasol am bryd o fwyd. Roedd y tywydd o'n plaid drwy'r dydd a braf oedd cael diwrnod o haul yn ogystal a

thrip gwerth chweil. Diolch yn fawr i'n Llywydd Mrs. Margaret Griffiths am drefnu'r daith.

Bydd y Gymdeithas yn ail gychwyn nos Wener, 9 Hydref am 7.30 yn Neuadd Gymunedol y Borth. Ein Llywydd, y Parchg Cecilia Charles fydd yn rhoi anerchiad a'r testun fydd 'O Ficerdy i Ficerdy'.

Llwyddiant Offerynnol

Llongyfarchiadau i Mared Emyr Pugh-Evans, ar ei llwyddiant diweddar Yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau 2013, enillodd y wobwr gyntaf ar yr Unawd Telyn dan 16 mlwydd oed. Cafodd ei dethol, ynghyd ag enillwyr yr Unawd Piano a'r Unawd Chwythbrennau, i ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn i ymgiprys am y Rhuban Glas Offerynnol o dan 16 mlwydd oed, a'i dyfarnu'n fuddugol, gan dderbyn y Rhuban Glas a gwobr ariannol o £100 ynghyd ag ysgoloriaeth o £1,000 i barhau â'i hastudiaethau cerddorol yn y dyfodol.

Dyma uchafbwynt blwyddyn lwyddiannus iawn gan iddi ennill Gwobr Iau Gŵyl Pencerdd Gwalia yn gynharach yn y flwyddyn ac ymddangos yng nghyngerdd yr ŵyl gan rannu llwyfan â Catrin Finch,



Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

11eg o Hydref 2013

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

MYNEDIAD £2

Neuadd Felin-fach

Arweinydd y noson
Geraint Lloyd

Beirniad
Gareth Lloyd

O'r Llwyfan

Dweud stori ddoniol

Darlïen darn heb ei atalnodi.

Datganiad cerddorol gan ddefnyddio eitem/eitemau o'r cartref.
Gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant.

Sgets neu ddeialog - stori fwy'r fro.

Cor Chwibanu (ton ar y nos!)

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadiu

Gwaith Cartref

Slogan— gwerthu eich papur bro

Dysgwyr - erthygl i'r papur bro am ddysgu cymraeg.

Plant oed gynradd - paentio hoff gymeriad o lyfr.

Pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - blog yn mynegi'ch barn ar bwnc cyfoes.

Brawddeg - CYMUNED.

Gorffen Limerig - Mi welais drwy gornel fy llygad.

Creu Poster i ddenu hysbysebion i'ch papur bro.

Cefnogwch eich papur bro!

Lolfa

CERED
Mudiad Ceredigion

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw) erbyn yr 20ll o Hydref at Gareth Lloyd : Hafandietwr, Talgarreg, Llandysul SA44 4XD

Anfonwch eich manylion cyswllt, gyda'ch ffugenw ac enw eich papur bro i Cered erbyn yr un dyddiad.

Cered, Campwr Addysg Felin-fach, Dyffryn Aeron, SA48 8AF

copi

Chwilio am anrheg Nadolig gwahanol?

Dyma gyfle i brynu copi DVD o unrhyw Eisteddfod Genedlaethol ers 1999, o gystadlaethau, seremonïau a chyngherddau'r Pafiliwn a gweithgareddau'r Babel Lân.

Archebwch cyn ddiwedd Hydref i sicrhau copi erbyn y Nadolig.

Pris cychwynnol – £15

01970 632 828
copi@llgc.org.uk
archif.com/copi

LGC NLW

Archif Genedlaethol
Sgrin a Sain Cymru
The National Screen and Sound Archive of Wales

DÔL-Y-BONT

Mynd i'r coleg

Llongyfarchiadau i Jacob Billingsley, Dolwar, ar ei lwyddiant ysgubol yn yr arholiadau Lefel A a phob dymuniad da iddo ar gychwyn yng Ngholeg y Brenin, Llundain lle bydd yn astudio hanes.

Chwaraewr llwyddiannus

Llongyfarchiadau hefyd i George Hughes, Captain's House, ar ei lwyddiant yn y maes pêl-droed yn ystod yr haf.

Mewn twrnament a gynhaliwyd yn Bow Street mi enillodd George nifer o wobrau gan gynnwys Chwaraewr Y Dydd, Chwaraewr Lleol y Dydd a George hefyd oedd enillydd Chwaraewr Cyffredinol gorau'r dydd.

Dal ati George - pwy a wŷr, efallai fod yna Gareth Bale arall yn Nôl-y-bont!



SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH

Perchennog: Lawrence Kelly

AR AGOR

Liun - Sadwrn

7 y bore - 9 yr hwyr

Sul

7 y bore - 7 yr hwyr

Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig

01970 828312

CTE

C. TREFOR EVANS

TREFNWR ANGLADDAU

+

"PLAS BRONGENAU"

LLANDRE

ABERYSTWYTH

Ffôn 820013

Gochel!

Yn y golofn enwau lleoedd gyntaf hon, fe hoffwn fynd â chi i lecyn ar gwr de-orllewinol pentref Cwmerfyn, lle ceir tri enw diddorol sy'n cynnwys yr elfen *gochel*, sef Gochel Gwympo, Gochel Dwmblo, a Gochel Foddi.

Gochel Gwympo yw'r unig enw sydd a chofnod ysgrifenedig hanesyddol, hyd y gwn i, a hynny yng Nghyfrifiad 1881. Cefais gadarnhad o leoliad ei adfail ar y gefnen uwchlaw'r ffordd gan Hywel Lewis, Fferm Cwmerfyn. (Pen-y-gell yw'r enw arno ar fap 6 modfedd cyntaf yr Arolwg Ordnans, neu Benygoyallt ar lafar.) Does wybod pam rhoddwyd y rhybudd hwn yn enw iddo gan nad does dim amlwg yn y tirlun a allai beri cwmp.


Hywel Lewis yw unig ffynhonnell yr wybodaeth a gefais am fodolaeth a lleoliad y ddau enw arall.

Gellir gweld murddun Gochel Dwmblo ar fin y ffordd sy'n rhedeg o

Gwmerfyn i Fancydarren. (Fe'i gelwir yn Tan-y-gell ar fap cyntaf 6 modfedd yr Arolwg Ordnans neu'n Danygoyallt ar lafar.) Fel mae'r enw'n awgrymu, mae ochr y dyffryn yn hynod o serth yn y llecyn hwn, a byddai'n hawdd i rywun syrthio.

Er nad oes unrhyw olion yn weddill yno bellach, ymddengys bod Gochel Foddi wedi ei leoli yng ngwaelod y dyffryn ar lan yr afon, sydd eto'n rhoi esboniad digon boddhaol i ail elfen yr enw.

Tybed a oedd chwedl yn gysylltiedig â'r tri enw gynt, ond iddi fynd ar ddifancoll? Ceir ynddynt adlais o chwedl y Farwolaeth Driphlyg, Nant Conwy (gw. *Cymru Fu* (1862), tt 430-2). Edrydd honno am un o Wyliaid Hiraethog yn mynd i ymladd â gwiber ar glogwyn uchel, wedi iddo gael sicrwydd gan ddewin na fyddai farw oni chât ei frathu gan y wiber, torri ei wddf, a boddi. Yn anffodus, dyna oedd ei dynged; fe'i brathwyd gan y wiber, torrodd ei wddf wrth gwmpo'n



bendramwnwgl dros y clogwyn, a rholiodd i'r afon gan foddi.

Digwydd enwau cyffelyb mewn mannau eraill yn y Canolbarth a'r De, a phob un â'i rybudd rhag ei berygl unigryw ei hun, er enghraifft Gwachaldagu a Gwachaldwmlo, Ceredigion (Iwan Wmffre: *The Place-Names of Cardiganshire* (2004), tt 23, 84); Gochel Sythi a Gwachel-Tagu yn sir Benfro (B G Charles: *The Place-Names of Pembrokeshire* (1992), tt 164, 623); Gwachal Losgi yn Llanismel, sir Gaerfyrddin; a Gwachel Foddi, enw Cymraeg y Pontardawe Inn

(*Geiriadur Prifysgol Cymru*, t 1419). Mae'r Geiriadur yn cofnodi hefyd y rhigwm 'Gwachel Dagu, / Gwachel Foddi, / Halfway House / A Chastell Dwrgi' am dai pentref bach Halfway, plwyf Talyllychau.

Os gwyddoch chi am enwau diddorol eraill yn ardal y *Tincer*, beth am gysylltu? Byddai'n braf clywed amdanynt.

Angharad Fychan

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

BOW STREET

Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00
Gweler hefyd <http://www.capelygarn.org/>
Medi
22 Bugail
29 Roger Ellis Humphreys
Hydref
6 Noddfa John Tudno Williams
13 Oedfa ddiolchgarch yr ofalaeth yng Nghapel y Garn
20 Bugail - cymun Huw Roderick
27 Adrian Williams


Casgliadau Cymorth Cristnogol Bow Street, Llandre a’r cylch

Carem ddiolch eto eleni yn gynnwys iawn i bob un a fu’n casglu o ddrws i ddrws. Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn pob ymdrech unigol yn ein hymgyrch. Y cyfanswm am eleni oedd £2,265-64.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Dinah a Peter Henley, Dôleglur, Bow Street, ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith yn rhagor. Ganwyd mab - Iestyn Rhys - i Jayne a Mark ar Orffennaf 15fed. Dymuniadau gorau i’r teulu.

Llongyfarchiadau i Dilys a Vernon Jones, Gaerwen, ar enedigaeth wyres fach - Elan Ceiro - merch i Bethan ac Osian Jones, Nercwys, Sir y Fflint a anwyd ar Orffennaf 27 - chwaer fach i Gruff, Ifan a Rhys. Mae’n siwr eu bod i gyd wrth eu bodd.



Emyr Jones, Cân y gwynt, Maes-y-garn, Bow Street (Maesnant, Tal-y-bont gynt) yn derbyn ei fedal am Wasanaeth i Amaethyddiaeth yn Sioe Llanelwedd eleni.



Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Gwen Lloyd Jones, Lasynys, Brynmeillion, sydd wedi symud i Gaerdydd ddechrau Awst. Bu Gwen yn ddosbarthydd y *Tincer* ers sawl blwyddyn a hefyd am gyfnod yn trefnu gyrru copïau o’r papur drwy’r post. Bydd colled ar ei hól yn amrywiol gymdeithasau’r ardal. Dymuniadau gorau iddi yn ei chartref newydd y bydd yn symud iddo yn fuan.

Eisteddfodol

Llongyfarchiadau hefyd i Vernon ar ddod i’r brig yng nghystadleuaeth y Soned yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych ar y testun ‘Cloddion’.

Llongyfarchiadau i Jacqueline Willmington, 3 Carreg Wen ar ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth yn yr Adran Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod ar ysgrifennu erthygl Gymraeg yn ymwneud â phwnc gwyddonol. Testun yr erthygl oedd ‘Bygythiad feirws Schmallerberg yng Nghymru’ – ac mae yr erthygl i’w gweld yn y cyfansoddiadau.

Llongyfarchiadau i Anwen Pierce ar ennill cadair Eisteddfod Castellnewydd Emlyn a dymuniadau gorau iddi hi, Hywel ac Elin yn eu cartref newydd ym Mrynmeillion.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dewi a Nerys Hughes, Jennifer a Gethin, Bod Hywel, ar golli

mam a mam-yng-nghyfraith ddiwedd Gorffennaf. Bu mam Nerys yn byw gyda’r teulu ym Mod Hywel a chafodd ofal arbennig ganddynt.

ac â Maud Phillips, 8 Tregerddan, a’r teulu, a gollodd ei hefeilles – Meg - yn ystod mis Awst yn Ferndale. Roedd yn falch o allu mynd i’r angladd yng nghwmni Alun, Dilwyn a Gwynant.

Diolch

Dymuna Janice, Harry a Catrin Petcher ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt ar farwolaeth tad Janice yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd er cof amdano i gronfa Sefydliad Prydeinig y Galon a Nyrsys Cymunedol Meddygfa’r Llan.

Priodas Ddiamwnt

Llongyfarchiadau i Mal ac Eleanor Evans, Maes Ceiro, a ddathlodd eu pen blwydd priodas ddiamwnt ym mis Awst.

Cyfarfodydd Merched y Wawr Rhydypennau

Nos Lun, 30 Medi ‘Y Cyfaill’ a ‘Te yn y Grug’: noson o ddramâu, Theatr Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, am 7.30 o’r gloch – enwau i Janet (820047) neu Marian (828662)

Nos Lun, 14 Hydref ‘Croesi’r Bont’: ymweliad ag adeilad y Cynulliad, Aberystwyth, am 7 o’r gloch

Nos Lun, 11 Tachwedd ‘Lluniau llon a lliwgar’: yr artist Rhiannon Roberts, Aberaeron, yn Neuadd Rhydypennau am 7.30 o’r gloch

Diolch

Dymuna Eunice Fleming, 1 Tregerddan, ddiolch i bawb a gofiodd am ei phen blwydd yn 90 oed ar 2 Gorffennaf. Mae’n gwerthfawrogi’r caredigrwydd, - yn gardiau, anrhegion ac ymweliadau. Nid yw Eunice yn dda iawn ar hyn o bryd a threuliodd gyfnod yn Ysbyty Bron-glais am gyfnod. Gobeithio y bydd yn teimlo yn well yn fuan.



Addysgiadol

Llongyfarchiadau i Mari Wyn Lewis, 14 Carreg Wen ar ennill gradd 2:1 yn y gyfraith o Brifysgol Lerpwl. Bu Mari a’i ffrindiau yn dringo mynydd Kilimanjaro dros yr haf i godi arian at achos da. Da iawn ti.

Hoffai Mari Lewis ddiolch i Meinir Jones a Banc Barclays am ei helpu i godi arian i’r elusen ‘Childreach International’ cyn mynd i ddringo Kilimanjaro. Roedd yn rhaid i Mari godi £2,500 cyn mynd ac roedd yr arian hyn yn mynd at Ysgol yn Tanzania. Yn y llun gwelir Alison a Mari Lewis a Meinir Jones.

Llongyfarchiadau hefyd i’w brodyr Ioan - fydd yn cymryd blwyddyn allan cyn mynd i astudio busnes ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Hwyl iddo ar ei waith fel achubwr bywydau ac yn nerbynfa Canolfan y Brifysgol Aberystwyth.

Ac Elis Wyn ar ennill pencampwriaeth golff i fechgyn o dan 15 oed dros Gymru a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff Caerfyrddin yn ddiweddar (gweler tudalen 1).

Brysiwch wella

Yr un yw ein dymuniadau i Maria Owen, Swyddfa’r Post; Mair Lewis, 40 Maes Ceiro; David Evans, 2 Tregerddan, Gareth Lewis, Brynawel, Mrs Margaret Robert, Crud yr Awel, Mr Martin Horwood, Delfryn a Mr Geraint Williams, Tregerddan gan obeithio y byddant i gyd yn hybu a chryfhau.

Priodas

Ar 7 Medi priodwyd Non merch ieuengaf W.J. a Gwenda, Edwards, 3 Tregerddan, á Carwyn Rhys Edwards, Cwrt-y-cadno, Pumsaint, gan ei thad yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin, lle

bu’n gweinidogaethu cyn ymddeol. Boed bendith ar briodas Non a Carwyn, a diolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt.

Canu

Hyfryd oedd gweld Mr Howell Ebenezer, 19 Bryncastell yn canu ar y teledu gyda Côr y Brythoniaid, Blaenau Ffestiniog, mewn cyngerdd yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eleni.

Ar ymweliad

Braf oedd gweld Mrs Violet Jones, gynt o 11 Tregerddan, sydd yn 104 oed, wedi dod o Lundain, lle y mae’n cael gofal arbennig gan ei merched, i weld ei theulu a ffrindiau yn yr ardal.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rheinallt a Sarah, Maes Ceiro ar enedigaeth Ela Mai Lewis ddydd Sul 15 Medi. Wyres i Richard a Mair Lewis, Maes Ceiro.

Croeso

Croeso i Kim a Paul Pearson a’r teulu sydd wedi symud i fyw i 20 Maesafallen, a llongyfarchiadau ar enedigaeth merch fach, Ruby, chwaer i Amelia.

Merched y Wawr Rhydpennau

Aelodau o F.Y.W. yn cerdded darn o lwybr



Aelodau o F.Y.W. yn cerdded darn o lwybr yr arfordir

yr arfordir, syniad Gill Griffiths, llywydd Cenedlaethol i’r aelodau drwy Gymru gyfan i fynd ati i gerdded darnau o’r llwybr. Cerddodd Merched Rhydpennau o Lan-y-môr yng Nghlarach i lawr at y prom yn Aberystwyth, noson hyfryd o haf, a gorffen y noson gyda phaned a chlonc yn Baravin. Noson bleserus iawn.

Dwy briodas aur

Llongyfarchiadau i Bill a Beti Hughes, Llys Hafod, (hen Cardi Cycles), ar achlysur eu priodas aur ar ddiwedd y mis.

Hefyd - er ychydig yn hwyr - llongyfarchiadau i’w cymdogion Rees a Mary Thomas, Tŷ Clyd, oedd yn dathlu eu priodas aur ym mis Awst.

Coleg

Llongyfarchiadau i Twm Joseff Mitchell ar ei ganlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddo ar ei gwrs yng Nghaerdydd,



Mrs. Elspeth Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont, gwraig y Llywydd am eleni, David Jones, yn cyflwyno cwpan i Brenda Jones, Y Lôn Groes, am y pwyntiau uchaf yn Adran y Cyffeithiau.

Cadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013

Er na fu Cadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013, mae cysylltiadau â'r ardal hon gyda'r Seremoni gan mai dyma'r olaf y bu i Hywel Wyn Edwards, sydd a'i wreiddiau yn y fro, ei goruchwyllo wedi 20 mlynedd fel Trefnydd yr Wyl. Mae llwyddiant arbennig Eisteddfodau'r cyfnod yn deillio o'i ymroddiad a'i ddiwydrwydd diarhebol a thrylwyder ei gynllunio a'i weithredu manwl.



Hywel Wyn Edwards

Un a fudodd gyda'i deulu i'r ardal yw Dewi Hughes, Bodhywel, Bow Street. Gan y cynhaliwyd yr Wyl eleni ym mro eu mebyd, ef gyda'i frawd Gerallt a gafodd y fraint arbennig o gyflwyno'r Gadair er cof am eu rhieni, John a Ceridwen Hughes Uwchaled.

Dilwyn Jones o Gwm Main ger Maerdy (Corwen) a gynlluniodd ac a luniodd cadair neilltuol hardd yn arddangos nodweddion Dyffryn Clwyd a mynydd-dir Hiraethog a Bryniau Clwyd, gan ddilyn yr Afon Clwyd o'i tharddiad i'r môr. Darlunia graen y coed derw dywod golau yr arfordir a phriddyn tywyll a ffrwythlon y Dyffryn ei hun. Yn ei cheinder amlygwyd dychymyg, dawn a medrusrwydd creadigol Dilwyn ar ei orau.

Ychydig cyn yr Wyl cyflwynwyd y Gadair yn swyddogol i Swyddogion Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod mewn achlysur



Gerallt, Dewi, Hywel Wyn Edwards (Trefnydd yr Eisteddfod), John Glyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith), Dilwyn Jones (Cynllunydd a Gwneuthurwr y Gadair)

yn Nhy'n y Coed, Arthog, cartre Gerallt a'i wraig, Dorothy. Yn y llun gwelir Gerallt a Dewi ynghyd â Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod, John Glyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a Dilwyn Jones cynllunydd a gwneuthurwr y Gadair.

**Cyngerdd Corau Ger-y-lli
a Godre'r Garth**
**Yn pefformio Atgof o'r sêr
(Robat Arwyn)**
Nos Sadwrn Rhagfyr 7fed
Mwy o fanylion i ddilyn

**Cyngerdd Nadolig
Côr ABC**
yn
Eglwys Llanbadarn Fawr
Nos Sul Rhagfyr 1af



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Arddangosfeydd Celf: Michael Roberts (27 Awst-19 Medi); Ann Thomas (23 Medi-24 Hydref)
- Cristnogaeth 21 yn Morlan (7.30, 11 Medi) – Byw'r Cwestiynau
- Bwrw Bol (7.30, 18 Medi): noson o drafod ar y testun: "Ai yn wirfoddol neu'n orfodol y mae sicrhau dyfodol i'r iaith?". Mynediad: £2.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**ytincer@
googlemail.com**

**GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS**



Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH
CYFIEITHU**

Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch**

**CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLLEN BWYTY
ADLONIAN**



**AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL**

MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

Oedfaon Madog 2.00

Medi
22 Bugail
29 Roger Ellis Humphreys

Hydref
6 John Tudno Williams
13 10.00 Oedfa ddiolchgarch yr ofalaeth
yng Nghapel y Garn
20 Bugail
27 Adrian Williams

Llwyddiant

Bu Dei a Lyn Evans, Deilyn, Cefn Llwyd yn llwyddiannus iawn yn sioeau'r haf eleni gan ennill nifer o wobrau. Hefyd enillodd Dei y Gilwobr Pencampwr am garcas oen Beltex yn y Sioe Frenhinol.



Cafodd Trystan Davies, Llain Gwyddil, Cefn Llwyd y Pencampwr am ddafad Beltex yn sioe Capel Bangor a nifer o wobrau hefyd mewn sioeau lleol.

Bu Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi yn llwyddiannus hefyd yn y sioeau yn yr adran grefftau efo'i ffyn. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Arholiadau a choleg

Llongyfarchiadau i rai o'r ardal ar eu canlyniadau lefel A a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Bydd Mari Havard yn cymryd blwyddyn allan cyn mynd i Brifysgol Birmingham; Menna Pugh-Jones yn mynd i Sheffield a Gerallt Hywel yn mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Peirianneg Sifil. Dymuniadau gorau hefyd i'w frawd Ifan sydd wedi mynd, ers diwedd Awst, i Brifysgol Vermont am flwyddyn fel rhan o'i gwrs Daeareg (hefyd ym Mhrifysgol Caerdydd).

Llongyfarchiadau i Jac Smith, Cefn Llwyd, ar ei lwyddiant yn ei gwrs BTEC yng Ngholeg Powys, Y Drenewydd;

hefyd bydd Rhys Wallace, Troed-y-Rhiw yn gadael am Brifysgol De Cymru, Pontypridd y mis yma i ddilyn cwrs gwyddorau'r heddlu. Dymuniadau da i chi i gyd.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Tomi Davies, Tyncwm, Capel Dewi ar ôl cyfnod hir yn ysbytyai Bron-glais a Threforys. Dathlodd Tomi ei ben blwydd yn 80 oed ar y 19eg o Awst yn Ysbyty Bron-glais yng nghwmni ei deulu a'i ddau ŵyr bach, Cennydd ac Einion;

i Tegwyn Lewis, Rhos-goch, a fu yn ysbytai

Bron-glais a Threforys yn ddiweddar yn dilyn damwain ar ei fferm. Mae bellach ar wellhad;

i Siân Evans, Llain-y-Felin a Jane – Tŷ Gruffydd, Capel Dewi, Cefn Llwyd – y ddwy heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Gethin Howells, Tŷ Capel Madog a Gemma Willows ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Dymuniadau da oddi wrth y teulu i gyd.

Teithio

Bu Llŷr Jones, Felin Hên, ar daith am 3 wythnos yn Seland Newydd yn Astudio Amaethyddiaeth efo Coleg Gelli Aur. Fe fu iddo fwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Croeso

Croeso i Rosie, Glen, a George i Cefn Faenor Fawr, Capel Dewi.

Pont ar gau

Bu Pont Rhydydomen – rhwng Rhos-goch a Capel Madog - ar gau ers tua pum wythnos. Dylai fod ar agor eto cyn diwedd y mis gobeithio.



ytincer@
googlemail.com

Eirian Reynolds,
Tech. S.P.
**GWASANAETH
IECHYD
A DIOGELWCH**
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU
DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN
I GADW CHI A'CH
GWEITHLU YN DDIOGEL
**01970 820124
07709 505741**

**GWASANAETH
TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**SWYDDFA'R POST
BOW STREET**
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL
A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios
**Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473**

Llyfrau

Huw Meirion Edwards
Lygad yn Llygad
Gwasg y Bwthyn 2013 96t.
£6.50

Daeth tyrfa dda at ei gilydd ar noson braf yn Llety Ceiro ar Orffennaf 19 i lansio cyfrol o gerddi Huw Meirion, un o nifer o feirdd dawnus ardal Llandre a Bow Street. Ar sail tystiolaeth y 96 o gerddi amrywiol yn *Lygad yn Llygad*, yn fwy hyd yn oed na'r ffaith ei fod-e'n brifardd cadeiriol, gallwn-ni'n ddiogel honni fod Huw Meirion gyda'r gorau oll.

Y cywydd yw hoff ffurf y bardd sylwgar, treiddgar, dychanol, deallus, crefftus yma, ond mae yma ddefnydd celfydd o fesurau eraill hefyd: yn eu mysg wyth o sonedau campus, un gerdd yn y wers rydd, a pheth wmbredd o englynion.

Drwy'r cerddi i gyd, y cymdeithasol, y gwleidyddol, y personol-teuluol, mae yna werthfawrogiad dwys o ryfeddod bywyd ac ar yr un pryd islais brudd, dig ar adegau. Dyna i chi "Canrif arall":

'Ac mae'r un hen obaith gwirion, gwyh, a'n llusgodd wysg ein pennau gyda hanner nos o groth y filflwydd newydd, yn ein cymell i straffaglu'n hanner dall am olau gwell'

Rydyn-ni'n cael tynerwch cariadus, megis yn 'Darlun', i Efa ei ferch (sylwch ar y geirio gwreiddiol a'r ddawn ddisgrifio:

Mae hi'n law, tithau'n dawl
Yn ddiarwybod o ddel
Wrth orielu'r papurach
Hyd y bwrdd yn dy fyd bach,
A phefria dy lygadau'r
Fflach o wyrdd dan dy ffluwch aur'

Bryd arall dyma ddicter deifiol ond disgybledig yn 'Os caf ofyn (Mawrth 2003)' wrth ffrewyllu'r ymosod ar Irac.

'Os yw Saddam yn was y diawl
Yng ngolwg Bush a Blair, pa hawl
Sydd gan y ddau i droi ei wlad
Ar fympwy balch yn faes crwsâd...

'A phan fo'ch bomiau clyfar iawn
Yn chwalu'r stryd yn fynwent lawn,
Ai gwell ai gwaeth eu lladdfa hwy
Na chemegolion brwnt a nwy?'

Brwdfrydedd edmygus wedyn yn 'Moliant Toby Palatau', canu mawl mewn gwisg gyfoes.

Mae Huw Meirion yn codi i dir go uchel mewn nifer o gerddi, ac mi ddewiswn i ddwy. Yn 'Tŷ'r Abad, Kemperle, Llydaw' mae'r bardd yn crwydro o'i lety, 'A'i gaws a'i fara a gwin / A'i grugiau hallt o gregin / Allan

i'r haul paganaidd' nes cyrraedd hen adeilad cysegredig ag ar ei allor gerflun o'r Forwyn Fair sy'n ei ddal 'a grym hudoles / Yn ei gras ymbilgar hi / A ias daer ei thosturi'.


Yr ail yw 'Colled', soned ingol i'r Iddew o foddwyd ar draeth Aberystwyth ddwy flynedd yn ôl. Gwerthfawrogiad yn gyntaf i'r ymwelwyr blynyddol:

'Mor ddigyfaddawd ddiarth, yma i'n plith
At eto ar wahân, dônt fel erioed
A'u cred yn wisg amdanynt ... '

Ac yna'r ddelwedd ddirdynnol o'r ymwelwyr yn sefyll
'Rhwing berw'r dre a sibrdw pell y lli,
A'u tylwyth un yn llai a'u byd ar stop.
Eu gweld yn rhythu tua'r bwllch lle bu,
A'u Haber, fel eu gwedd, yn gwbl ddu.'

Ddwy flynedd wedyn mae yna dristwch arwyddocaol arbennig yn y geiriau, '..byddai'n chwith / Gan riw Penglais pe tawai tramp eu troed'.
Diolch yn fawr Huw.

Cynog Dafis



TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Pennrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd
mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Llyfrau Tegwyn Jones

Bu Tegwyn Jones wrthi'n brysurach nag arfer hyd yn oed eleni, gan fod dwy gyfrol o'i eiddo wedi eu cyhoeddi. Y gyntaf oedd *Ambell Air ac Ati* (Gwasg Carreg Gwalch) a welodd olau dydd ym mis Mawrth, a'r ail oedd *Bro a Bywyd Hywel Teifi Edwards* (Cyhoeddiadau Barddas) a gyrhaeddodd ddwylo'r cyhoedd yn addas iawn yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych.

Un o Lyfrau Llafar Gwlad yw *Ambell Air ac Ati* - rhif 82 yn y gyfres i fod yn fanwl. Detholiad o golofn Tegwyn Jones yng nghylchgrawn *Llafar Gwlad* yw rhan gyntaf y gyfrol, lle mae'n olrhain tarddiad ac yn trafod geiriau ac ymadroddion diddorol. Gan fod yr awdur yn tarddu o ardal y *Tincer* mae llawer



ohonyn nhw yn gyfarwydd i ni, er enghraifft 'ffor' a 'baeden', a 'brathu'r gaseg' - 'brathu'r gaseg wen' fyddai hi yn ein tŷ ni, gyda llaw. Ond peidied neb â meddwl mai dim ond â geiriau ei fro enedigol mae a wnelo'r awdur - mae ei ystyriaethau yn

ymestyn ymhellach na hynny. Mae'r ysgrifau cryno yn llawn gwybodaeth, a honno'n aml yn annisgwyl.

Yn ail ran y llyfr mae chwech ysgrif sylweddol a ymddangosodd mewn cylchgronau eraill, megis *Y Faner*, *Ceredigion* a *Canu Gwerin*. Mae tair ohonyn nhw'n cyflwyno torreth o wybodaeth am faledi a baledwyr, yn ôl cyn belled â'r 16ed ganrif, a'r tair arall, yn eu tro, yn trafod Idwal Jones y dramodydd, Etholiad y Brifysgol 1943, ac Edward Hughes a Siôn Owen o deulu Morrisiaid Môn, a fu â chysylltiad agos â fferm Alltfadog a Chwmsymlog ac ardal y gweithie mwyn.

Diolch i Tegwyn am gofnodi'r agweddau hyn ar ein treftadaeth. Mae'n llyfr i bori ynddo.

Llinos Dafis

O'r Cynulliad – Elin Jones

O blith y pynciau sy'n codi'n mewn gohebiaeth ac mewn cymorthfeydd ar draws y sir, mae safon y gwasanaeth band-llydan yn sicr yn un sy'n codi'n aml. Mae cyflymder y cysylltiad yn broblem barhaus i nifer o bobl sy'n byw yn bell o gyfnewidfa ffôn, ac hefyd i nifer o bentrefi. Yn ddiweddar mae pobl wedi cysylltu gyda mi o Beulah, Bryngwyn, Goginan, Cwmrheidol, Llanfihangel-y-Creuddyn,




Llanwnnen, Llanwenog a Bwlch-llan. Rwy' wedi bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu, ac hefyd cefais gyfarfod yn ddiweddar gydag Ann Beynon, pennaeth cwmni BT yng Nghymru. Esboniodd hithau rai agweddau o'r cynlluniau sydd gan y cwmni i gyflwyno'r gwasanaeth newydd cyflym dros y ddwy flynedd nesa. Fydd hi fawr o werth i nifer o bobl Ceredigion i gael gwifrau ffeibr newydd i'r gyfnewidfa os nad oes gwelliannau i'r gwifrau i'r tŷ. Cefais sicrwydd fod y cwmni yn mynd i gysylltu tai yn uniongyrchol a'r system newydd mewn rhai ardaloedd, ond bydd angen cadw golwg agos ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw Ceredigion yn colli allan. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os oes gennych broblemau band-llydan yn eich ardal. Mae'r rhyngwrdd mor bwysig i nifer o fusnesau bach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac mae'n braf gweld fod nifer o fusnesau yn y sector yma wedi cael blwyddyn tipyn gwell eleni. Mae cwmnïau bwyd bychan hefyd yn bwysig i economi Ceredigion, ac mi ymwelais â gwyliau bwyd ffyniannus Aberteifi a Llambled yr haf yma. Hefyd cadeiriais fforwm ar y diwydiant bwyd a drefnwyd yn Aberystwyth gan Sefydliad y Merched; roedd yn ddiddorol clywed nifer o syniadau am sut i hybu cynnyrch lleol. Gan orffen ar newyddion da, mi sgwennais yn y golofn hon yn y gwanwyn am sut oedd rhai grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfundrefn ddeisebau'r Cynulliad. Wel, cafodd Blaenporth lwyddiant yn ddiweddar, gyda phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gael cyfyngiad cyflymder newydd ar y briffordd. Llongyfarchiadau i'r cyngor cymuned lleol a'r rheiny fu'n ymgychu mor ddiwyd.

Taith gerdded y mis

O amgylch Llyn Cwmrheidol

Man dechrau: Cilfan ar y dde ar waelod y llyn.
Map: OS Explorer 213 : GR 695796.
Pellter: 4.8 milltir hawdd.



O'r gilfan 'nôl i gyfeiriad Capel Bangor a throi i'r chwith dros y bont ac fe welwch feidr i'r chwith wrth y cornel. Dilynwch y feidr nes cyrraedd llwybr yn troi i'r chwith lawr tuag at y llyn, a bydd arwyddion yn eich arwain tuag at yr ysgol bysgod. Croeswch y bontbren yma a throi i'r dde a cherdded ar hyd y ffordd am tua tri chwarter milltir cyn troi i'r dde a chroesi pontbren arall. Lan y llwybr, dros y sticil ac i'r dde a dilyn y llwybr 'nôl at yr ysgol bysgod a chroesi'r bontbren eto ac i'r chwith ar hyd y ffordd 'nôl i'r man dechrau.



**COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION**

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyffwisgoedd priodasol.
Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

Nos Wener 4.30-9.00

Gwersi Gitâr

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk

Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Canolfan Merched Y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth.

ytincer@
googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

**Torri Porfa, Torri
Gwrych a Strimmio,
Disgownt i
Bensiynwyr.**

**Ffôn 01974 261758
07792457816**
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

inc

Amrywiaeth eang o
lyfrau, cardiau, cerddoriaeth
ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion
ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

Medi

- 22 10 Oedfa Menter Gobaith yng Ngharmel, Llanilar
- 29 10 Ifan Mason Davies

Hydref

- 6 10 Rhidian Griffiths
- 13 10 Oedfa ddiolchgarch yr ofalaeth yng Nghapel y Garn
- 20 10 Richard Lewis
- 27 5 Bugail

Diolch

Dymuna teulu y ddiweddar Myfanwy Thomas, Troedrhiwlwba, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a hwy, yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion o £1,045 i Gartref Hafan y Waun. Gwerthfawrogn fel teulu. eich haelioni.

Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a’r cyffiniau

Daeth ŵyr Mr a Mrs Hywel ac Enid Jones, Awel Deg, - sef Daniel Calan Jones, Caerdydd, yn fuddugol yng nghystadleuaeth “Dawns y Glocsen”. Nid dyma’r tro cyntaf iddo ennill yn y Genedlaethol. Ein dymuniadau da iddo. Cofiw’n ei dad Glyn Jones yn mynychu Ysgol Pen-llwyn, dros dri deg o flynyddoedd yn ôl bellach. Onid yw amser yn ffoi?

Cydymdeimlad

Mae ein meddyliau gyda theulu y ddiweddar Mrs Marian Jane Lewis, Glanrheidol, a fu farw ar y 18fed o Awst yng Nghartref Cwmcynfelin. Cydymdeimlwn â’r plant Elfed (y vet), Lilian a Sheila, yr wyron, y brawd Cyril, a’r cysylltiadau i gyd. ’Roedd Mrs Lewis yn un o wyth o blant Nantcellan, Llangorwen. Bu hi a’i diweddar briod, yn byw yn “Peithyll” ar ôl priodi, ac ym mhen amser yn Glanrheidol. Bu yn aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched, ac ‘roedd yn chwaraewraig penigamp mewn tennis bwrdd. Bu ei hangladd ar yr 21ain o Awst yn Llangorwen, yng ngofal yr Hybarch Hywel Jones. Rhoddwyd y deyrnged gan Mrs Heather Evans, a’r organydd oedd Mr Maldwyn James.

Oed yr Addewid

Daeth aderyn bach heibio, a’r newydd fod tri o drigolion y pentref wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ystod yr haf. Estynnwn iddynt gyfarchion hwyr a dymuniadau gorau iddynt eu tri, sef Mrs Gwyneth Smart, Sunnycroft; Mrs Angharad Jones, Tawelfan, a Mr Tom James, Penbontbren.

Gradd MA

Llongyfarchiadau i Timothy Bernat, Tanffordd, ar ennill ei radd M.A.ym mis Gorffennaf.

Priodas

Llongyfarchiadau i Chris ac Allison Little, Brynteg, ar eu mab yng nghyfraith newydd. Priodwyd eu merch hynaf Naomi, â Mathew Smith, yng nghapel Sant George, Castell Windsor, ar y 15fed o Awst. Mae tad y priodfab yn saer, ac yng ngofal dodrefn yng nghastelli y teulu brenhinol. Cawsant ddiwrnod bendigedig, meddai Allison, pawb yn hapus iawn. Dymuniadau da iddynt i gyd fel teulu.

Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y tymor a gynhaliwyd yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gan ein llywydd, Beti Daniel. Cafwyd cyfle ar ddechrau’r noson i ymaelodi a datgelwyd rhaglen y tymor. Rhannwyd copïau o’r Wawr i’r aelodau gan Ann James, sydd ers nifer o flynyddoedd bellach yn casglu’r copïau’n brydlon o swyddfa Merched y Wawr cyn eu dosbarthu. Treuliwyd y noson yng nghwmni Bethan Bebb a ddaeth ag eitemau o’i gwaith llaw i’w harddangos. Clywsom ganddi fel y dechreuodd ymddiddori mewn gwaith llaw a chafwyd ambell i hanesyn oedd yn gysylltiedig â darnau o’i gwaith. Trwy ei gwaith aed â ni o’i chynefin i’r gwledydd y bu ar ei gwyliau. Edmygwyd y gwaith cywrain yn fawr gan yr aelodau. Cyfran fechan o’i gwaith yn unig a welsom ond roedd wedi paratoi cofnod darluniadol o’r hyn a greodd ar hyd y blynyddoedd. Beti Daniel ddiolchodd i Bethan Bebb am ei pharodrwydd i ddod atom i arddangos peth o’i gwaith.

Paratowyd y te gan y llywydd, Beti Daniel a’r ysgrifennydd, Lis Collison.

Enillwyd y raffl gan y trysorydd, Eirwen McAnulty, sydd hefyd yn is-lywydd y gangen.

Edrychwn ymlaen at raglen ddiddorol a baratowyd ar ein cyfer. Yn ystod y flwyddyn bydd y gangen yn dathlu 30 mlynedd ers ei sefydlu. Ar nos Fawrth, 1af Hydref, disgwylir cael cwmni Dianne Smith a fydd yn sôn am fywyd yn Saudi. Buasem, fel cangen yn falch iawn i groesawu aelodau newydd. Mae croeso i chi gysylltu â’r swyddogion a enwyd uchod neu â Llinos Jones (is-ysgrifennydd) neu Aeron Armitage (is-drysorydd) i gael gwybodaeth bellach.

Sioe Capel Bangor

Cafwyd Sioe lwyddiannus iawn elenl eto ar gaeau Maes Bangor drwy garedigrwydd teulu Cwmwythig. Bu yna gystadlu brwd



Darlith yr Archif Wleidyddol Gymreig

Yr Arglwydd Morris o Aberafan fydd yn traddodi Darlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig eleni. Y testun fydd Cenedl y Cymry yn y Deyrnas Unedig. Fe’i cynhelir yn y Drwm, LLGC am 5.00 nos Wener Tachwedd 1af. Mynediad am ddim drwy docyn.

Llun: Yr Arglwydd Morris gan Keith Breeden. Mae’r llun yn eiddo i Gasgliad Celf Amgueddfa Prifysgol Morgannwg

TREFEURIG

ar y cae ac yn y Babell. Llywydd eleni oedd Christine Charlton, cyn Brifathrawes yr Ysgol Gynradd. Cafodd ddiwrnod wrth ei bodd a bu yn brysur iawn yn mynd o amgylch y sioe drwy'r dydd. Diolch i bawb am bob cymorth OND mae angen tipyn o gymorth ar aelodau y Pwyllgor os yw y Sioe i barhau. Cynhaliwyd pwyllgor arbennig yn y Neuadd ddechrau mis Medi i drafod y dyfodol, a daeth tua ugain o bobl yno. Cadeirwyd y pwyllgor gan Bethan Bebb a phwysleisiodd bod yn rhaid cael mwy o aelodau ar y pwyllgor os yw y Sioe i barhau. Mae cynnal Sioe o'r maint yma yn ormod o waith i tua hanner dwsin o bobl. Cafwyd ymateb eithaf cadarnhaol gan y rhai oedd yn bresennol a gobeithio y daw mwy o ymateb eto ar gyfer y Pwyllgor Blynnyddol a gynhelir Nos Fercher Tachwedd 6ed am 7.30 yn y Druid yng Ngoginan. Croeso mawr i bawb a dewch a syniadau newydd gyda chi ar y ffordd i symud y Sioe ymlaen i'r dyfodol.

Ar y sgrîn

Gwelwyd Cefin, Sian, Tomos a Haf Evans, Rhiwarthen, ar y rhaglen deledu 100 o blant dros yr haf. Er na fuont yn fuddugol y noson honno fe enillwyd tocyn i'r teulu ymweld â Legoland, Windsor.

Canlyniadau Clwb 200 Ysgol Feithrin Pen-llwyn

Gorffennaf

- 1af Steffan Jones, Hafnau, Pontarfynach
- 2il Aled Lewis, Ystrad, Capel Bangor
- 3ydd Aled Jones, Llyn, Blaenycloed, Caerfyrddin
- 4ydd Mickey Alford, c/o Y Ddôl, Cwmrheidol

Awst

- 1af Louise Griffiths, Pantmawr, Pisgah
- 2il Nia Lewis, Ystrad, Capel Bangor,
- 3ydd Lisa Griffiths, The Granary, Bolts Hill
- 4ydd Morgan a Iestyn Lewis, Deiniol, Capel Bangor

Y Maes

Ffarweliwyd ers ddechrau'r haf gyda Andy a Heather o'r Maes (Maesbangor Arms). Pob dymuniad da iddynt hwy, ac ar yr un pryd croeso i Jonathan a Vanessa Busson y trigolion newydd. Eu mab

Nick yw y cogydd, a arferai goginio yn y Rhydypennau. Y mae'r Bwyty ar agor o Ddydd Mercher hyd Ddydd Sul.

Llongyfarchiadau i'w merch Clarissa sydd wedi graddio yn ddiweddar mewn dawn ac wedi cael gwaith yn syth yn Disneyland Paris. Llongyfarchiadau iddi, a dymuniadau gorau iddynt bob un.

Gwasanaeth y Teulu

Cafwyd gwasanaeth teuluol ar yr 8fed o Fedi, a'r Parchedig Wyn Rhys Morris ein gweinidog yn gwasanaethu. Plant yr Ysgol Sul a gymerodd at y rhannau arweiniol. Hyfryd oedd gweld y rhieni yn bresennol gyda'u plant. Dangoswyd i'r plant luniau ar y sgrîn o stori Joseff, cyn mynd i'r festri i ateb y cwestiynau ar y daflen, lliwio ac ati. Daethant yn ôl i'r capel i ddangos eu gwaith, wedi y bregeth, sef Iestyn, Nannon, Ffion, Alaw, Haf, Luned, Llŷr, Owen, Megan, Efanna, Tomos, Begw, ac Anya.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwenda Edwards, Mari, Richard a Meirion a'u teuluoedd ar farwolaeth Emyr J Edwards ar Fehefin 27 yn ei gartref. Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb ar Orffennaf 4 yn cael ei ddilyn gan gladdedigaeth ym mynwent Horeb.

Dechrau cwrs

Llongyfarchiadau i Mari Healy, Maes Meurig, ar ei chanlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddi ar y cwrs ffotograffiaeth, ffasiwn a hysbysebu ym Mhrifysgol Casnewydd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Benjamin Matthew Morgan, Capel Bach, Pen-bont foddwyd yn Llyn Syfydrin yn ddiweddar.

Cystadleuaeth tynnu llun Sioe Penrhyn-coch

Cynigiwyd noddi cystadleuaeth ffotograffau yn sioeau y dalgylch. Sioe Penrhyn-coch oedd yr unig un i dderbyn y cynnig. Geiriad y gystadleuaeth oedd Llundain/ffotograff o adeilad, digwyddiad neu berson o ardal y Tincer a dyma'r canlyniadau:

- Yr enillwyr oedd
- 1af Seren Jenkins, Waunfawr – Sioned a'r Grinch
 - 2il Seren Jenkins Adeiladu y caban Meithrin
 - 3ydd Lynwen Jenkins, Waunfawr Taith tractors 2012



Ysgol Penrhyn-coch

Tripiau Ysgol

Yn ystod wythnosau olaf y tymor diwethaf, teithiodd yr holl ysgol ar eu tripiau ysgol. Eleni, aeth y ddau gyfnod allweddol i wahanol fannau. Teithiodd y Cyfnod Sylfaen i “Ar y Bêl” yn Ffos- y-ffin. Yno bu’r disgyblion (a’r staff) wrthi yn mwynhau. Ar y ffordd yn ôl, cafwyd stop am sglodion yn Aberaeron. Cafwyd diwrnod da iawn gyda’r holl ddisgyblion yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Teithiodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr holl ffordd i Eisteddfod Llangollen. Roedd y rhan fwyaf o’r disgyblion yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod. Gwelwyd y Côr yn canu ar y llwyfan a llanwyd bws cyfan o gefnogwyr yn dilyn. Un o uchafbwyntiau y diwrnod oedd cymryd rhan yn yr orymdaith ryngwladol drwy’r dref. Gwelwyd y disgyblion yn cymysgu gyda phlant o China, Rwsia, India ac yb. Cafwyd diwrnod braf iawn yno a’r plant a’r cefnogwyr yn mwynhau eu hunain yn fawr. Da iawn i’r Côr am eu perfformiad a diolch i’r rhai a ddaeth i’n cefnogi.

Gwasanaeth Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6. Daeth criw dda o rieni at ei gilydd a chafwyd prynhawn go wahanol. Treuliwyd nifer o’r wythnosau blaenorol yn paratoi cân arbennig o atgofion y plant o’r staff yn yr ysgol. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

Ffarwelio gyda Staff

Yn ystod wythnosau olaf y tymor, buom yn ffarwelio â dau aelod o staff. Symudodd Mr Lewis i weithio yn Ysgol Craig yr Wylfa. Bu Mr Lewis yn gweithio yn yr ysgol ers nifer o flynyddoedd. Pob dymuniad iddo yn ei swydd newydd.

Ffarweliwyd hefyd â Mrs Evans, fu’n cynorthwyo gydag un disgybl ers nifer o flynyddoedd. Dymunwn pob lwc iddi yn y dyfodol.

Sioe Frenhinol

Eleni eto, bu disgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol. Llwyddwyd i ennill nifer o wobrau amrywiol. Llongyfarchiadau i bawb a fu’n cystadlu. Dyma’r canlyniadau:-

Ysgrifennu llythyr – zil Martha Rowlands 3ydd Dylan Jenkins Creu Anifail Fferm - 1af Sophie Brown

Criced

Llwyddodd tîm criced yr ysgol i ennill drwodd i rowndiau terfynol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar gaeau Bae Colwyn. Er cychwyn cynnar ar gyfer y daith, cafwyd diwrnod arbennig iawn. Llwyddwyd i ennill dwy o’n gêm a cholli un. Canlyniad hyn oedd cael ein gosod yn gydradd drydedd. Llongyfarchiadau mawr i’r disgyblion ar eu gorchestion yn enwedig wrth chwarae tîm yn cynnwys ambell i chwaraewr rhyngwladol!! Diolch i Mr Lewis am ei waith gyda’r tîm.

Disgyblion newydd

Ar gychwyn y tymor, croesawyd tri o ddisgyblion newydd i’r ysgol. Ymunodd Charlotte a Tirion atom ynghyd â Ethan. Croeso iddynt a gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau ar un o’r diwrnodau braf prin ym mis Mehefin. Cynhaliwyd nifer o’r cystadlaethau maes cyn y diwrnod o fewn y gwersi addysgu corfforol. Cafwyd



Wrthi’n gwneud crysau T dathliadau 150 yr ysgol



Ruth Jên yn gweithio ar grysau T gyda’r disgyblion.



Diwrnod Mabolgampau’r Ysgol

prynhawn arbennig o gystadlu ar ddiwrnod y mabolgampau ac yng nghanol yr holl gystadlu brwd, cafwyd llawer o hwyl a sbri. Croesawyd rhai o aelodau’r Ysgol Feithrin i lawr

i gymryd rhan. Ar ddiwedd y prynhawn, Stewi fu’n fuddugol a chyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tîm buddugol gan Mr Lewis. Diolch i Miss Cory am drefnu prynhawn hwyliog iawn.

Ysgol Craig yr Wylfa

Enillwyr

Llongyfarchiadau i'r tair uchod, Anna, Mackenzie a Lauren, am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau yn holiadur y ffair wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Gwelir y merched yn casglu eu gwobrau. Da iawn ferched!

Tîm Plismona Ieuentid Ceredigion

Gwelir Charlotte Roberts yma gyda rhai o griw'r Tîm Plismona Ieuentid Ceredigion yn derbyn ei thystysgrifau mewn noson wobrwyo ym Mrynrodyn, y Borth. Llongyfarchiadau mawr Charlotte.

Taith Llundain

Dyma rai o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a deithiodd i Lundain i gwrdd â'n Haelod Seneddol, Mark Williams a'r Arglwydd Elystan-Morgan yn San Steffan. Bu'r disgyblion hefyd yn ymweld â Sioe Wyddoniaeth yn Amgueddfa Wyddoniaeth yn y brifddinas.

Prosiect Haf

Rhai o'r disgyblion wrthi yn paentio murlun ar wal y caban dan arweiniad yr artist lleol, Bodge.

Llyfrgell y Dre

Y disgyblion yn mwynhau gwrando ar stori gyda Sue Jones-Davies yn Llyfrgell y Dre fel rhan o gyflwyniad i her darllen yr haf, sef Ysbryd y Plas.

Ffarwelio

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Mrs Richards wedi 25ain o wasanaeth i Ysgol Craig yr Wylfa. Pob hwyl Mrs Richards, a diolch am bopeth. Pob hwyl hefyd i'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Pob lwc i chi gyd gyda'ch gyrfaoedd.

Gorsaf yn dathlu pen blwydd yn 150 oed

Bu'r orsaf trên yn y Borth yn dathlu ei phen blwydd yn 150 mlwydd oed yn ddiweddar. Perfformiodd disgyblion yr ysgol gân a gafodd ei chyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr achlysur gan Mr Michael James, FRCO, sef organydd eglwys St. Matthew, y Borth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lauren Jones am ennill cystadleuaeth dylunio clawr i gylchgrawn carnifal y Borth. Gwelir Lauren gyda'i gwobr, set dylunio.



Ysgol Pen-llwyn

Disgyblion newydd

Hoffem groesawu dau ddisgybl newydd i ddosbarth 1. Mae Efanna Lewis a Phoebe Alban wedi dechrau yn y derbyn ac wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Ymweliad Gwyndaf Lloyd

Daeth Gwyndaf Lloyd o'r Frigâd Dân cyn diwedd yr haf i drafod diogelwch yn y cartref. Mae'r plant i gyd yn gwybod beth i wneud os oes tân yn yr ysgol ac yn cofio'r rhif ffôn pwysig, 999!

Tripiau Haf

Bu llawer o gyffro ar fore Dydd Gwener, Gorffennaf 12fed wrth i ni adael Capel Bangor. Aeth dosbarth 1 i Folly Farm a dosbarth 2 i Blue Lagoon. Roedd plant dosbarth 1 yn awyddus i weld y pengwinaid newydd a dosbarth 2 yn frwdfrydig i dreulio tair awr yn y dŵr. Daeth y diwrnod hwylus i ben gyda sgloodion ar y traeth yn Aberaeron.

Ffarwel

Dymunwn pob lwc i Berian Lewis, ein Prifathro Cynorthwyol, ar ei secondiad i Swyddfa'r Sir. Bydd yn gweithio ar wella sgiliau rhifedd ar draws ysgolion y Sir.

Rydym wedi croesawu Mr Kevin Jones o Aberaeron fel ein Prifathro Cynorthwyol dros secondiad Berian. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith ni.



Gwibdaith i Folly Farm

Mabolgampau

Unwaith eto eleni cynhaliwyd ein mabolgampau i lawr yng Nghwmrheidol. Roedd hi'n ddiwrnod braf iawn, gyda phawb yn mwynhau cystadlu a chefnogi. Diolch yn fawr i bawb am helpu ni i gynnal diwrnod mor llwyddiannus.

Clwb y Caban

Ffarweliwyd ag Aimie a Katie ar ddiwedd yr haf. Cyflwynwyd anrhegion iddynt i ddiolch am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n tipyn o her i gychwyn Clwb ar ôl ysgol a gyda diolch iddyn nhw, mae'r clwb yn llwyddiant mawr.

Erbyn hyn, rydyn ni wedi croesawu Tom, Becky a Phillipa i gynnal y clwb eleni. Dechreu tymor gyda'r thema môr-ladron.

Mae croeso i bob plentyn yn yr ardal i fynychu ar Nosweithiau Llun, Mawrth, Mercher a Iau o 3.30 tan 5.30.



Ras ŵy a llwy

Cegin newydd

Daeth llawer o weithwyr i'n cegin dros yr haf i osod un newydd. Roedd brys ar ddiwedd yr haf i alluogi ein cogyddes i ddarparu bwyd i ni a'r ddwy ysgol arall. Mae Cathy yn hapus iawn erbyn hyn yn ei chegin newydd.

Morrisons

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cael llawer o gynnyrch ffres o'n gardd i fwyta. Mae garddwyr yr ysgol wedi gweithio'n galed i

dyfu mefus, tomatos, ffa, letys, bresych, blodfresych a llawer o flodau gwahanol.

Mae'r amser wedi dod i gasglu tocynnau eto ac rydym yn ddiolchgar iawn am bob un tocyn. Bydd bocs yn y garej Exchange eleni eto.

Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor ffarweliwyd a nifer o'n disgyblion sef Alaw, Bethany, Haf, Lorenzo a Nuala. Pob hwyl iddynt yn eu hysgolion newydd.



Grwp Miss Williams wedi chwilio'r pengwinaid



Mwynhau gyda'r anifeiliaid



Bl 3 a 4 yn rhedeg y ras hir

Ysgol Rhydypennau

Prysurdeb

Ar ddechrau blwyddyn academiaidd arall, mae prysurdeb yr ysgol yn parhau. Yn barod, rydym yn y broses o ethol, trwy bleidlais, y Cyngor Ysgol. Fel pob blwyddyn arall mi fydd aelodau'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion.

Yn ychwanegol i hyn, ac ar ôl cwblhau ffurflenni cais a chyfweliadau gyda'r prifathro, mae blwyddyn 6 yn ran o Griw Cŵl yr ysgol. Maent yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau pwysig yn ystod y flwyddyn.

Ffarwelio

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf. Hoffai'r ysgol ddiolch hefyd i Mrs Lynda Smith. Bu Lynda yn gaffaeliad mawr i'r ysgol am chwe mlynedd ar hugain. Ymddeoliad Hapus!

Clwb Cant y Cant

Llongyfarchiadau mawr i Llio Morgan, Mari Morgan, Kurtis Dallas, Cerys Scott a Teleri Morgan am eu presenoldeb cyflawn yn ystod blwyddyn academiaidd 2012 i 2013.

Garddwest yr ysgol

Ar yr 28ain o Fehefin cynhaliwyd Garddwest yr ysgol. Eleni eto, penderfynwyd ei chynnal ar nos Wener ac fe agorwyd yr arddwest yn swyddogol gan Mr a Mrs Rees, Brysgaga. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau pwrpasol er mwyn codi arian i'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch

o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwyr, Ystwyth Veterinary Practice Limited a Mr a Mrs Grover, Bardsey View Holiday Park, Mydroilyn. Diolch hefyd i noddwyr y gwobrau, Gerwyn a Sioned Evans, Anthony Motors a Garej Rhydypennau am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

Dal lan â'r digwyddiadau

Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 12fed o Fai. Y tîm buddugol eleni oedd Ystwyth gyda Rheidol yn ail ac Eleri yn drydydd.

Gala Nofio

Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Ystwyth. Cyflwynwyd y tlws i'r ddau gapten, Elan Griffiths a Mali Bailey. Ffion Duckett oedd y ferch â'r nifer fwyaf o bwyntiau a Llŷr Williams a lwyddodd yng nhystadleuaeth y bechgyn.

Diwrnod Hwyl yr Urdd

Cynhaliwyd diwrnod Hwyl yr Urdd eleni ar y 3ydd o Orffennaf. Mwynhaodd hanner cant o blant o flynyddoed 4, 5 a 6 amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys criced, athletau, pêl-rwyd, pêl-doj, golff, tennis, pêl-droed, rygbi, a dawnsio zumba.

Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Medi 1af - £25 Rowland Rees, Brysgaga. 2il - £15 Gwen Pugh, 19 Tregerddan. 3ydd-£10 Grace Bailey, Y Borth



Aelodau Clwb Cant y Cant



Ffarwelio â Blwyddyn 6



Agoriad swyddogol Yr Arddwest



Prynu a gwerthu yn Yr Arddwest



Ffarwelio â Mrs Lynda Smith

Tasg y Tincer



Elen Morgan

Croeso 'nôl! A gawsoch chi wyliau haf da? A fuoch chi yn rhywle diddorol? Mae'n siŵr fod rhai ohonoch chi wedi bod ar wyliau tramor, a rhai, fel fi, wedi aros yn ardal y *Tincer* ac wedi bod i'r traeth yn y Borth neu

yn Aberystwyth. Dwi'n gwybod bod sawl un ohonoch chi wedi bod i'r Sioe Fawr yn Llanwelwedd, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych, wrth gwrs. A beth am garnifal y Borth? Gobeithio eich bod wedi cael amser wrth eich bodd.

Daeth nifer o luniau hyfryd trwy'r blwch post yn ystod yr wythnosau diwethaf, a diolch i chi i gyd am eich gwaith. Daliwch ati! Dyma'r enwau:


Llio Tanat, Llandre; Mackenzie Byrne, Y Borth; Nel Davies, Caernarfon; Elen Madrun Llewelyn Evans, Llandre; Reian ac Elen Morgan, Bow Street; Katie Boake, Salem, Penrhyn-coch; Owen Jac Roberts, Rhydyfelin, Aberystwyth; Lily-May Welsby, Penparcau; Jude Coleridge, Bow Street; Gwenno Griffiths, Y Borth.

Diolch yn arbennig i Efanna a Megan Lewis, Capel Bangor, am luniau'r babel a ddaeth yn rhy hwyr i'w cynnwys yn rhifyn Mehefin. Am luniau da!

Ar ôl pendroni'n hir, yr enillydd yw Elen Morgan, Bow Street – roeddet ti wedi rhoi haul mawr, braf yn dy lun wnaeth godi fy nghalon!

Y mis hwn, beth am liwio llun y pilipala? Dyna braf oedd ei weld yn ein gerddi dros yr haf. Falle fod gennych chi lwyn neu flodyn y mae'r pilipala'n hoff iawn ohono? Mae yna nifer o enwau gwahanol ar y creadur hardd hwn, yn does? Beth ydych chi'n ei alw? Iâr Fach yr Haf, falle, neu glöyn byw, mae'n siŵr, ond mae rhai yn ei alw'n blufyn bach yr haf neu'n golomen fyw.

Anfonwch eich gwaith ataf erbyn Hydref 1af ond **PLÛS NODWCH Y CYFEIRIAD NEWYDD**: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP. Ta ta tan toc, a phob hwyl ar y tymor newydd yn yr ysgol!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn

Oed

M THOMAS

Plymwr Lleol

Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol

07968 728470
01970 820375

**JONATHAN
JAMES LEWIS**

**Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260**

**Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth**

**GOICHDY
LLANBADARN**

**CYTUNDEB GOICHI
GWASANAETH GOICHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON**

**FFÔN: 01970 612459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES**

ISSN 0963-925X



9 770963 925009 >

Rhif 361 | MEDI 2013